Ar Ganiadau *SOLOMON*,

g yn Ail, Y mae traethawd byrr rheoli,
ar ymgynhyllfa wythnoſol, or the weekly
Societies

g yn Drydydd, Ychydig o hymneu o
waith Rev. Mr Griffydd Jones, o Rev. Mr.
Daniel Rowland, ag amryw Eraill.

rgraphwyd yn y *Mwythig* gan *Richard Lasbrop*, tros *Evan Rees*.

1740.

At y Darllennydd.

NID ammheuodd Eglwys Dduw mewn ûn oes nad oedd y llyfr hwn (*O Ganiad Salomon*) o yſprydoliaeth Dduw, ac iw ddeall yn yſprydol: *er bod yr anneallus*, cnawdol, *a'i anwaſtad yn ei wyrdroi iw diniſtr eu hunain.*

Rhai a Sugnant wenwyn o'r llyſeuyn melus hwn ond (i Dduw bo'r diolch fod rhai) erail o feddwl pûr a jachus, yn cael difyrrwch a maeth iw henaid.

Llawer Addyſc ac annogaeth nefol ſy ynddo i geiſio Chriſt ac i gadw cymmund eb gydâ Duw: *y llythyren ſy'n lladd ond yr yſpry ſy'n bywhau.* Trwy gyffelybiaethau a Dam hegion y mae Duw'n Dyſcu'r Eglwys a pho Chriſtion yn y llyfr hwn. Cân Priodas ydy rhwng Chriſt âi Eglwys a phôb Chriſtion: Chri a yſpyſir tan rith *Bugail* yn byw yn y wlâ lle mae pob math o graeduriaid, *Defaid, geif Brain, colomennod llwynogod, llyſian, Coed, afonyd Mynyddoedd &c.* Ac oddiwrth y rhai'n y cym mer *Solomon* ei Ddamhegion i egluro i'r dyd *odidawgrwydd Chriſt a Hawddgarwch yr Eglwy* yr hon ſy' debyg i *Frgeilies*, neu *Briodas-fer Bûgail.*

Gwraig Chriſt mewn cyfammod anghyfnew dial yw'r Eglwys: *Pſal.* 45. o hyd.

M

Mi a fynnwn i'ch farnu mai nid er ffroſt nac ar fedr ei gyhoeddi, ond er difyrrwch i'm fy hun, ac Adeiladoeth i'm Teulu y darperais hyn o waith Candryll anfedrus; nid yw'r Gynghanedd ond anhawddgar i ddyfod i ddwylaw 'r cywraint: ond gobeithio'r 'wyf na ddarfu im dywyllu mor Scrythyr, ond cadw neſa ag ymedrwn atti a'i hamcan pennaf.

Yr agoriad ſy' fyrr, o achos im' fy rhwymo fy hun i agoryd *fers* gogyfer *fers*, fel y cyfatteb ei tu dalen o'r agoriad i'r tu dalen o'r Caniad.

Gobeithio 'r 'wyf' y cynhyrfa hyn ychwaneg o ddarllen y *Caniadau* ac i geiſio deall da o hono thrwyddo: Ac y bydd i ryw ûn neu gilydd, (wrth weled beiau hyn o waith) gymeryd ei Binn mewn llaw a hwylio ei feddwl i wneud well gwaith a Defnydd o'r un Teſtyn: Ac yn cyfamſer fy ngweddi yw ar i bob Darllennydd gael Adeiladaeth, a rhoddi 'r Diolch i Dduw, bydd ŵych y Darllennydd dibartiol.

Caniadau Solomon. PEN I.

1. CAN y Caniadau (llywydd llon)
gwaith *Solomon* y Brenin,
Trwy yſprydoliaeth Dduwiol ddawn
peraidd-lawn doeth a dibrin.

[Ymddiddan]
Yr Eglwys wrth Griſt.

2. Hiracthe 'r Eglwys loiw lân
am guſan gan Griſt Jeſu,
Gwell ganddi gariad hwn na gwîn;
o'i fîn mae grâs yn tarddu.

3. Fy nghriſt dy râs di ennaint yw
o arogl gwiw daionus,
Fel Ennaint tywalltedig pûr
yn gwneuthur Enw melus:
Am hynny y llangeeſau glân
nid oedan hwy mo'th garu.
Tyn fi' ni'a redwn yn gyttûn,
pob ûu yn ôl ei allu;

4. Ar d'ôl y bydd (ein Brenin clau)
hol Symmuniadau'n calon:
Hyd oni ddelom (Arglwydd mau)
i'th holl Stafellau tirion.
Ein holl hyfrydwch ydwyti,
ti'n llenwi â llawenydd;
Cofiwn dy gariad hagor gwîn
yn ddiflin ddyfal: Arglwydd!
Y Diragrithiol unjawn lu
Sydd yn dy garu beunydd.

Agoriad byrr o Caniad Salomon.

PEN. I.

1. UN, y goreu un, a'r mwy a'rhagorol o ganiadau *Salomon*, [Mâb Dafydd] Brenin da a doeth ar *Judah* ac *Iſrael*: *y Teſtyn yw*, y cariad ſy' rhwng Chriſt y Brenin, a'r Eglwys y Frenhines.

2. Yr Eglwys yn Creſa gan Ghriſt Arwyddion a phroſiad o'i gymod, cariad a'i râs; ac y rhoe hyn mwy o lawenydd i'w Henaid llwſr Cythryblus, na'r gwîn i yſprydoedd gwan llyſmeiriog.

3. Oblegit fod graſau, doniau, a Diddanweh dy yſpryd a'th Haeddedigaethau mor rhagorol: mae *dy Enw*, Sef tydi, a'r hyn y gwnei dy hun yn adnabydd us trwyddynt, *Sef*, dy *air*, *Eſengyl*, *Addewidion*, *gwaith*, yn enwedig y *Prynedigaeth*, fel ennaint tywalltedig, yn *hyfryd*, *rhâd llawn*: yn arogli'n dda gydâ'r rhai nid ymlygrant â phechod, ond'ynt ddihalog a ffyddlon i Griſt.

4. 'Wyf bell oddiwrthit'; *Satan*, y byd a'r *enawd* ſy'n fy nhynnu'n ôl; Tynn di fi â'th ras a'th yſpryd: gwan a gwrthnyſig 'wyf, ond gwna fi 'n ewyllyſgar ac yn abl i ddyfod; Ac mi a'r holl ffyddloniaid a ddown yn gyflym: Ar hyn ti Chriſt fy Mrenin am dygi i'th *Stafelloedd*, i wybod d' ewyllys, i gael cyſſur, cymdeithas neulltuol a Diogelwch a hyn a lawenha f'enaid ynot, ac ni a feddyliwn ac a gofiwn am y Cariad hwn yn fwy nac am y Cyſſuron Creedig goreu: ac nyni (y ffyddloniaid) a gytunwn yn hyn i'th garu di.

5. Pechod, Rhagrithwŷr, cyſtudd caeth
am gwnaeth yn dduedd efrydd :
(Merched Jeruſalem îs nen)
o mewn'rwy'n wenn a hawddgar
Fel llenni *Solomon*; ond hyll
ar faes fel Pebyll Cedar.

6. O nac edrychwch, am fy môd
yn ddu-nôd trwy fy ngwendid,
A'r Haul o erlidigaeth dôſt
a lygrodd ffrôſt fy nglendid;
Meibion fy Mam (rhagrithiol blaid
o Hereticiaid chwerw)
A oſodaſant eu llid drwg
a'u gŵg mewn barn i'm bwrw:
Goſodent arnaf rwymau caeth.
Rhyw Ddeddfau hîr-faeth ddynol,
Gadw rhai'n, fel gwînllan bûr,
ei ffrwyth oedd Sûr anianol:
Dy air a'm Dyledſwyddau glân
fy ngwînllan hon nis Cedwais;
Aeth yn Anialwch trwy ddirôl
awdurol ddynol ddyfais.

7. Pa le'r 'wyti fy Jeſu glân
yn gwneud dy gorlan Ddefaid,
Mynega imi yn ddiffael
y Bugail hoff im Henaid?

5. Yr Eglwys a ddywed wrth Broffeſſwŷr cyffredin; *Du* ac anhawddgar 'wyf yn eich golwg, o ran fy nghyſtudd, pechod a'm gwendidau i ac eraill gyda 'm fi, a'n Aɛreſiau; yr 'wyf am hyn mewn galarwiſc ac yn wrthyn oddiallan, fel du-bebyll Cedar ond nis gwelwch mo'm graſau o' mewn, yno gwŷch 'wyf fel llenni *Salomon.*

6. Dymuna'r Eglwys nad edrychid arni'n ddiyſtyr oblegit nad oedd *Ddu* o naturiaeth ond o ddamwain, oblegit i Haul Erlidigaeth edrych arni'n drwm: Ac hefyd *Meibion ei mam*; ſef Proffeſſwŷr rhagrithiol, cyfeiliornus, yn d'weud eu bod yn blant yr un *Fam* Eglwys, ond nid i'r ûn Tad nefol, y rhai'n a'm herlidiaſant; a oſodaſant eu Dychmygion a'u Coelgrefydd yn gaethiwed ar fy nghydwybod; hyn oedd eu gwinllan hwy: *a'm gwinllan fy hun*, o bur Athrawiaeth ac Addoliad nis cedwais; a hyn a'm gwnaeth *yn ddu* ac yn ddigalon.

7. Yr Eglwys bur a'r ffoddloniaid neulltuol yn erfyn ar ei Priod a'i Bugail am ddatcuddio o hono (yn yr amſer hwn o'i herledigaeth) p'le y ca'ent gymundeb a'g ef, au' cywir ddyſcu gyda' i blant âi braidd ei hun: oblegit llawer oedd yn eu galw eu hunain yn *gyfeillion*, ac yn wîr Eglwys CHRIST, ond nid oeddynt ond gau

Pa le gwnei iddynt ganol dŷdd
oddiwrth gafodudd orwedd?
Paham y byddaf megis ûn
fy hun yn ddiymgeledd?
Mae Diadellau gafraidd lu,
ond Caru'r rhain nes medraf;
Er haeru mai'th gyfeillion 'ynt,
ei harwynt ni ddilynaf.

CHRISTT.

8. Teccaf o'r gwragedd (harddferch wiw
er bod dy liw yn lo'wddu)
Os nid adwaenoſt y ffordd fau,
eerdd lwybrau y Defaid-lu:
Dôs allan rhagot yn ddinam
ffordd *Abraham*, ac eraill;
Portha dy fynnod bâch ger llaw
Diſtaw fugeiliaidd Bebyll.
9. Na meirch Cerbydau *Phar'o* ffiwch
(f' hyfrydwch) wyt gyflymach.
10. Hardd yw dy brŷd gan dlyſau grâs
o gwmpas d' wddf hayach
Plethwn gadwyni diſtrych glán.
11. Cei arian yn foglynnau,
Cei Dlyſſau aur, bydd ſelly'n wŷch
cael edrych ar dy Radau.

EGLWYS.

12. Tra yw' yr *Jeſu* Brenin mawr
(ai brŷd fel wawr) yn eiſtedd
Ar fwrdd ei ordinhadau; faint
fy ennaint fydd d' aroglau?

gau frodyr yn troi oddiwrtho ac yn ymawdurdodi yn ei enw ef.

8. Er atteb, Mae Chriſt yn ei galw'n *Deccaf* yn ei olwg ef yn yr holl fŷd; am ei bod wedi golchi â'i waed, a'i harddu a'i gyfiawnder, a'i raſau ef. *Dòs* (ebefe) a dŵg dy rai jeuangc iw dyſcu gan fy nghywir *Gennadon*, a rhodla yn yr Athrawiaeth, a *dilyn òl y praidd*, yr Eglwys gynt, Siampl *Abraham Iſaac* ar ffyddloniaid eraill, un praidd yw'r Eglwys ym mhôb oes.

9. Yr *Aipht* oedd hynod am Feirch hardd a chryfion, a chan *Pharao* yn ei gerbyd yr oedd y rhai hardda, a chefnocca; O fy Eglwys anwyl, yr wyt'fel y rhai'n i'n golwg a'm gwaſanaeth i.

10. Hawddgarwch a harddwch yr Eglwys ſy'n nid oddi wrthi ei hun, ond y *tlyſau* mae *Chriſt* yn eu rh'oi arna; Sef ordinhadau, doniau, graſau a chyfſuron yr yſpryd. *Ezec.* 16. 14.

11. Lle mae *Chriſt* wedi dechreu addurno, ef' a rhaddlo hyd berffeithrwydd, yr awdur, a'r Perffeithydd yw'r *Drindod*, *a wnawn.*

12. Yr Eglwys yn ail-atteb; tra bo' *Chriſt* fy mhriod Brenhinol wrth *fwrdd-gwledd* ei ordinhadau yn rho'i ei breſenoldeb a'i gymundeb ac yn derbyn gweddiau; *fy nardus*; Sef fy nghalon llawn o'i ras, a ymegir iddo, a phob gras a fydd ar waith *Sef*, *ffydd*, *Cariad*, *edifeirwch* &c. a hyn fydd hyfryd ganddo ei ar Cwmpeini.

13 Yn bwyſi *Myrrh* f' Anwylyd ſydd,
Hyd ddydd trig rhwng ſy mronnau.
14. Yn *Engedi* gwînllannoedd llawn
S'au grawn ar ffrwythlawn gangau
Pereiddiaf *Gamphyr* wyt imi
arogli felly 'n waſtad
Uwch law y llyſiau gerddi têg,
ar redeg wyt i'th ddirnad.

[*CHRIST.*]

15. Wele di'n Dêg, y mae dy brŷd
F'Anwylyd yn rhagori,
Am hyn yr haeddit trwy'r holl wlâd
yn oeſtad gael dy foli:
Wele di'n Dêg, maen't yn ddiwâd
ddau lygad Colomennod;
Diwair a diſclair'ynt bob ûn,
am hyn yr'wyt yn hynod.

[*EGLWYS.*

16. Wele di'n Dêg f'Anwylyd î
Ti'n dêg; a'n gweli'n iraidd:
Dy gariad a'th gymmyndeb dî,
imi Sy' weli euraidd.
17. Swmmerau'n Tai Sy' Gedr-wydd,
mor ddedwydd yw ein trigfan;
A'n diſtiau gwaſtad iraidd rhwydd
Sydd o *ffynnid-wydd* hir-lan.

. Cymdeithas Sy'n magu cariad, ac yn rho'i Croeſaw Caredig i Ghriſt; ac mae eſ ddydd a nôs (ſel Myrrh) yn arogli gan yr Eglwys ſel pwyſi

. Fy nghriſt yr wyt' imi ſel y goreu o'r Per-lyſiau, yn *ſelus*, *hyſryd*, *gymfforddus*, ſel y rhai a dyfant yn *Engedi*, lle Dyfriog, ffrwythlon yn rhandir *Yudah*.

. Chriſt a ddywed am y Chriſtion a'r Eglwys, eu bod yn Dêg, ac yn eu Siccrhau o hyn, er eu gwendidau. eu bod a *llygaid Colomennod*, yn hawddgar, diwair, diniwed; nid ſel y walch, eryr, a'r Barcut yn rheibus; ac hefyd ſel Colomen yn ffyddlon i'w chymmar,

. Yr Eglwys a ddychwel y glod ar Griſt, ac a ddywed ei ſod *E F* yn Dêg yn wîr-berffaith. *yn hawddgar*, mae llawer, têg yn anghynnes: ond tydi Chriſt ſy' *hawddgar*, a'm têgwch i oddiwrthyti y derbyniais. Y, cymmundeb yr wyf, yn ei gael gyda thi, a'r graſau a'r Diddanwch oddiwrthyt' 'ynt ſel gweli-priodas oh, mor hyfryd yw Cymmundeb gyda Chriſt ym mhôb ordinhad a lle!

. Mae'r Eglwys yn canmol Chriſt a pho'b peth a'r eiddo, yn enwedig ei *ordinhadau*: eiddo Chriſt a'r Eglwys 'yw rhai'n yn gyffredin; ordinhadau Chriſt a rhagorfreintiau'r Eglwys 'ynt *lle* mae *Chriſt* a'i *Ddiweddi* yn cyfarfod ac yn byw gyda'u gilydd: y lle a'r Cyfarfod hwn ſy' ſel *Cedar* a ffynidwydd, o ran parhad, cryfdr, ac arogl hyfryd. Crŷf a da yw pob peth a geiff y Chriſtion yn y Cyfammod

[PEN II.]

[*CHRIST.*]

1. FEL Rhoſyn *Saron* ydwyfi
a lili y Dyffrynoedd.
2. Fel lili gwyn ymmyſc y drain
yw nghain ymmyſc y bobloedd.

EGLWYS.

3. Fel pren afalau têg ei wrŷſc
ymmyſc holl brennau'r goedwig,
Felly f' Anwylyd (nid gwâg rith)
ymmhlith y gwŷr Pendefig;
Eiſteddais tan ei gyſcod clau,
i eſmwythau f' aelodau.
A'i ffrwythau peraidd yn ddilys
oedd felys jawn i'm genau.
4. F a'm dŷg i dŷ y gwinoedd pêr
rhoes droſof' faner cariad.
5. O deuwch ar frŷs, cynheliwch fi
nid rhaid i'ch ofni afrad.
Deuwch â phottelau llawnion deuwch
cyſſurwch âg afalau:
O'th Cariad ti fy Nghriſt, fy nâf,
yr wyf' yn glâfhyd angeu.
6. Mae ei law aſſwy tan fy mhen,
a'i ddehau wenn im gwaſcu.
7. Merched *Caerſalam* yn ddiffael
rhaid imi gael eich tyngu:
Tynghedaf chwi trwy'r jwrch a'r Hŷdd
bob dydd fy'n pori allan;
Fy nghariad na chewch mo'i gyffroi
hyd oni fynno'i hunan,

PEN II.

CHRIST yn ei gyffelybu ei hun i *Roſyn* o ran prydferthwch ac arogl da: Ac yn *Sharon* yr oedd *Roſu* amla a goreu. Felly'r *lili* ſy' flodeuyn hardd a phêr arogledd; Chriſt a'i daroſtyngodd ei hun, ac a breſwylia mewn Calonnau iſel, ſel *y Dyffrynnoedd*,

Chriſt yn cyffelybu'r Eglwys i'r *lili* megis ef ei hun, mae'r Chriſtion yn debyg i Griſt: Fel y mae'r *lili* yn rhagori ar *ddrain*, felly 'r Eglwys yn rhagori ar bawb eraill; pigog a diffrwyth yw'r *drain* a'u lloſci fydd au diwedd, felly pawb nad ydynt yn ac fel Chriſt.

Yr Eglwys yn canmol Chriſt, yn ei gyffelybu i *Bren afalau* ffrwythlon, hyfryd; yn rhagori ar brennau cyffredin diffrwyth: felly *Chriſt* ymmyſc *Angelion* a Dynion: Ac ynghanol pob blinder y nae hi yn gorphwys ac yn ymborthi ar Ghriſt. Tano ef yr ymgyſcoda rhag Pechod a'r gyfraith; a'r ffrwyth ſy'n dyſod oddiwrtho ſy' felus; *ſef*, Addewidion, maddeuant, Heddwch, cariad, llawenydd. gobaith &c.

Chriſt am dygodd i'r gwîn-dŷ i wledda ar Ddatcuddiadau mwy o'i gariad a'i gyfoeth, i gael cymmundeb yn ei Ordinhadau, yn enwedig ei *Swpper*, yr *Efengyl* yw *Baner* y Tywyſog hwn, ac yn Argraphedig arni (nid llew, eryr &c. ond) *Cariad*.

Yr Eglwys yn proffeſſu mawr ſerch i Griſt, fel yr oedd 'mron llyſmeirio, o ofal iw gadw, ofn ei golli. Mwy o Griſt, *afalau*, *gwîn*; ſef ffrwythau cariad a chyſuron yr yſpryd.

Pan waeddais yr oedd Chriſt, yn agos; un llaw fel gobenydd i'm cynnal, a'r llall i'm ſicrhau o'i gariad, ein holl ymgeledd ſy' oddiwrth Griſt.

Yr Eglwys yn ofni colli cymundeb yn gorchymyn i'r haelod au a yrront Griſt ymaith trwy eu ham rywſedd a phechod, mwy nac ymlidient yr jyrchod a'r Ewigod llonydd, mwynion.

8. Llais ſy Anwylyd ydyw hwn,
mi glywa' i ſwn yn neſſu
Ar fryniau a mynyddoedd mawr
ſel cawr yn neidio a llammu.

9. Tebyg i jwrch neu lwdn hŷdd
yn draed-rydd yw f' Anwylyd,
Mae'n ſefyll y tu ôl i'n mur;
ei bryd ſy' bûr a hyfryd:
A'i ddiſclair olwg ſel trwy ddrŷch
mae'n edrych trwy'r ffeneſtri,
A thrwy'r delltennau yn ddios
mae yn ymddangos inni.

10. Llefarodd ſy Anwylyd gwynn
ſel hyn y traethe'n berffaith
Fy mhrydferth anwyl mawr ei chlôd
cyfod a thyret ymmaith.

11. Y gaiaf, a aeth heibio draw
a'r glaw ar dro aeth ymmaith.
Gwelwyd y blodau yn ddi-âr
ar ddaiar glaiar hir-ſaith:

12. Amſer i'r Adar tirion daeth
yn odiaeth Cerddi i byngcio
Clywyd y Durtur bâch â'i nâd
yn tramwy'n gwlâd i leiſio.
13. Y prennau ffigys gwyrddlas glân
rh'ont allan ffigys irion,
A'r gwinwydd têg torreithiol rawn
yn llawn â'u hegin gleiſion.

Wedi deffroi o' Eglwys, gorfoleddodd glywed llais Chriſt yn o *Teſtament Hên a'r newydd*, yn llefaru wrthi: Hi a'i adwaenei ef; yr Eglwys gynt oedd llawen trwy *ffydd* yn diſgwil Chriſt. *Joa.* 8. 56. a phan ddaeth ni Safodd un mynydd na bryn o rwyſtr ar ei ffordd, nac Angeu nac uffern: ac ni rwyſtra 'n pechodau no'n gwindidau ni ef i ddyfod attom yn gyflym a llawen.

Chriſt a ddaw'n gyflym i'w Eglwys, nid oedodd ddyfod yn y cnawd, nid oeda ddyfod yn yſpryddol. na'i ddyfodiad diweddaf; nid oedd tan yr *Hên Deſtament*, ond fel y tu ol i'n pared wrth ei amlygad yn tŷ (ei Eglwys) tan yr Efengyl: a'c yn y nêf y gwelir ef etto'n amlyccach. Cyſcodau a Ceremoniau 'r *Hên Deſtament* Ac Arwyddion ſacramentaidd 'ynt y Pared yn cuddio ac yn gwahanu.

Yr Eglwys yn Cyhoeddi Cariad Chriſt a'r modd y galwaſei ef hi trwy ei *air* a'i *yſpryd* i rodio gydag ef, c i adel *Syrthni*, *pechod*, a'r bŷd, ac i ymroi i fyned ydag ef i ba le bynnac yr ae.

12. 13. Chiſt yn annog yr Eglwys, trwy Ddeveud fod y ffordd yn *rhydd*, *hawdd*, a *hyfryd* ei hrafaelio; fod wyneb Blwyddyn a'r Haf wedi yfod, a' gaiaf trwm, oer, marw wedi myned eibio. 1. Goruwchiliaeth yr Hên Deſtament, eu Erlidigaeth drom, ac amſer marwaidd o ran roedigaeth pechaduriaid. d'yna'r *gaiaf*. 2 Yr *haf*, a phob hyfryd Fendithion y cyſammod ar Efengyl ynt amlwg: Heddwch, llawenydd a hroedigaeth pechaduriaid yn aml: Mae'r Eglwys n *tyfu*, yn *harddy* ac yn *llawen*, ac yn addaw rwyth da lawer.

Rhoddaſant oll aroglau têg :
ti yn ddiartreg cyfot,
F'Anwylyd tyret ac na Sâf
nid âf fy mrhydferth hebot.

14 Yn holltau'r graig fy nghlomen bûr
Cadarn-fûr yw dy lletty,
Ac yn llocheſau griſiau Caeth
rhag ofn i'r Saeth dy ddrygu :
Gâd imi weled dy lân brŷd,
a'th hyfryd lais ei glywed,
Canys dy lais fy' beraidd jawn ;
a'th olwg llawn cyn hardded !

15. Llwynogod bychain mawr eu bâr
yſtrywgar inni deliwch,
Ac hefyd y llwynogod hên
â'i twyllgar wên cymerwch.
Difwynant ein gwîn llanoedd têg
ac yn ddiattreg mathrant
Cans i'n gwin llannoedd egin ſydd
o rawn-wîn efrydd ffynniant.

16. F'Anwylyd ſydd yn eiddo fi
'wyf eiddo iddo eilwaith,
Y mae'n bugeilio'i ddefaid blith
ymmhlith y lili perffaith.

17. Hyd oni wawrio'r dydd i'n bro
a Chilio o'r cyſcodau,
Tro, f' Anwyl bydd fel jwrch neu Hydd
ar fronydd *Bether* dithau.

. Chriſt yn gwahodd ei Eglwys a phob aelod i ddy-
fod i gymmundeb ag ef; *Fy nghlomen, ddihalog ddin-*
iwed, lonydd, ffyddlon i'th gymmar; i ba le y t're-
waiſt dy ben i'mguddio rhag gelynion, a chywilydd
o achos dy wendidou a'th lithriadau? Tyret allan
attafi, nac eſceuluſa ordinhadau, na ddigalonna rhag
dy ofn i gad imi glywed dy *weddiau a'th Fawl*, yr
'wyfi 'n raſol, a thithau'n gymmeradwy.

. Chriſt yn gorchymyn i'w Gyfeillion ai Gennadon
Symmud a thynnu pob peth oedd yn dychrynu ac yn
nrheithio'r Eglwys: *llwynogod*, ſef yr *Hudwyr*, twy-
llwŷr *gau athrawon*, ar y Cyntaf yn ymddangos yn
ddiniwed, ond yn rhwyſtro'r Eglwys i dyfu a ffrwy-
ho: yn llygrù *Barn*, *Cydwybod*, a *bywyd* rhai a Chy-
hwnſa dda ar ol Chriſt.

Yr Eglwys a'r Chriſtion wedi dyfod at Griſt, yn
mffroſtio o'r undeb a'r Cymmundeb rhyngddynt, ac
n mynegu mai ymmyſc y rhai gwynion, glan a me-
us y mae Chriſt yn aros ac yn ymhyfrydu.

Yr Eglwys yn ofni i Griſt gilio, yn creſa arno aros.
r Ffdewon, yn diſgwil am Ddŷdd yr Efengyl, a'r holl
glwys yn diſgwil am y *Dydd diweddaf*, pryd y cilie'r
ol, *a'r Cyſcodau*, o Anwybodaeth a blinder, ac ordin-
dau, ac hyd hynny yn erfyn ar Griſt aros gyda hi;
y pryd hynny (hi a wydde) y cae hi fyned at a bod
n oeſtadol gyda'r Arglwydd; Ac am hynny tyret at
ys Arglwydd.

[PEN III.]

[*EGLWYS.*]

1. CEISIAIS f' Anwylyd cu liw nôs
yn ddiddos yn fy ngweli,
Ceisi ais trachefn ae nis cefais
am fod fy nghais trwy Syrthni.

2. Codaf yn awr o gylch yr âf
y ddinas lanaf lydan,
A thrwy'r heolydd hirion maith,
gwna'n waith fy'nd trwy bob Strydan.
Yr hwn a hoffa f' enaid trwm,
a Swm fy Serch mewn cyffro;
Mi 'ai ceisiais ef'wyf tan ei ŵg:
nis cafais olwg arno.

3. Gwilwŷr y ddinas, rhai a aent
o gylch am caent yn ebrwydd,
A welsoch fy Anwylyd gwyn?
ofynnais hyn heb wradwydd,

4. Oddiwrthynt hwy nid aethwn i
nepell hyd one Chefais
Yr hwn fy hôff gan f' enaid llym,
yn awch ym mi a'i deliais;
Pan gefais nis gollyngais ef,
hyd adref mi a'i dygais
Ŷ dŷ fy mam, i ſtafell hon
(nid eſtroi) mi a'i cyrchais.

5. Merchad *Caerſalem*, tref fy nâf
ty ghedar chwi trwy'r j yrchod
(Sy'n pori yn y maes a'r Coed)
a'r yſcafn-droed Ewigod:

PEN III.

YR Eglwys wedi Colli Chriſt, ei gymmundeb ac arwyddion o'i breſenoldeb, hi a'i ceiſiodd ef yn ei hadfyd neu'n Swrth *liw nos*; neu'n amſer yr *Hên Deſtament*, pryd yr oedd efe'n anamlwg er ei fod yn o agos gweddiais *ond nis Cefais ef*, a hyn oedd er cerydd i'm am fy niofalwch, neu er cynhyrfiad i'm graſau.

Mi a ymrois i yſcwyd ymmaith bob Syrthni ac eſcus ac oedi; gan nas cefais ef yn fy nirgel Addoliad, mi a'i ceiſiaf tan y moddion cyhoeddus, ac yno trôs dro nis cafais ei ffafor, ei gymundeb na ffrwyth ei breſenoldeb, er mwyn ei wneud ei hun yn anwylach pan y cawn ef.

Fel Gwil-wyr mewn Dinaſoedd felly Pregethwyr yn yr Eglwys ſy'n golygu rhag niwed, Ac i gyfarwyddo i anghyfarwydd, ac i geryddu rhai di-drefn: Gofynnodd yr Eglwys i'r rhain, a diſgwiliodd am Attebion nis cafodd yn fuan nac wrth ei bodd.

A'm fi yn ddiwyd ac yn alarus ynymofyn, a'r *Gwilwyr* heb fodloni fy *Meddwl*: Aethym tyhwynt i Bregethwyr, ordinhadau a chyd griſtnogion, a thrwy *ffydd* ni a'i cefais, ac a'i deliais â'm ffydd ac a'm cariad: Ac wedi cael newydd eglurhad o hono, Bum ofalus i gadw hyn yn fi nghalon, ac i yſpyſu Chriſt i'm brodyr a'm cyd-griſtnogion *yn nhy fy mam*, yr Eglwys.

Darllen. *Pennod* 2. 7. Yr Eglwys eſpys.

Na wnaeth mor cynwrf, na chyffrôch
ac na ddeffroch fy nghariad,
Hyd oni fynno ef ei hun
o'i gyntun mwyn yn waſtad.

[*Merched Jeruſalem*]

6. Pwy ydyw hon a'i chyflym dro
ſy'n bryſſio ar i fynu
O'r Anial mawr fel Colofn mŵg?
mac'r golwg iw ryſeddu.
Wedi Chyflawni â'r *Thus* pûr
â'r *Myrrh* a'r Powdr gorau
Y' ngaell r' Apothecari lawn
nis cawn fath Bêr aroglau.

[*E G L W Y S.*]

7. Wele ei weli ef tan go.
yr eiddo *Salomon*,
Tri'gain o gedyrn ſydd o'i gylch
a'u haſtylch bawb gar bron
8. Gadarnwŷr Iſrel, medrant drîn
y Cleddyf deufîn daliant,
Wedi eu dyſcu i Ryfel;
pob un yn fiel a'i trinant.
Mae cleddyf pawb ar ben ei glun,
pob un rhag ofn liw du-nôs.
9. Gwnaeth iddo 'r Brenin *Salomon*
Gerbyd Coed-fron *LIBANOS*
10. Ei byſt o arian ef e'i gwnaeth,
âg aur pur odiaeth llawrwyd;
Ei lenni drûd o Borphor main:
â'r pethau rhain yr harddwyd.

Merched Jeruſalem, ſef proffeſwŷr cyffredin ſy'n Canfod y ffyddlon Eglwys (yr hon a fuaſei yn *ddu*) yn Deg tros ben, yn dyfod i fynu o'i Chyſtuddiau-ſel yr *Jſrael o wlad yr Aipht*; neu oddi tan an, ghyſſuron: Ar ddychweliad Chriſt atti mae'n llawen wreſog, hyfryd yn ei *gweddi* a'i *mawl*, ac *aferiad* o'i *graſau*, y rhai ydynt Ber-aroglau wedi eu cyrchu o bell a'u prynu'n ddrud gan Griſt. Rhyfedd yw gweled un mor *Dêg* o Aniolwch y Byd gwŷllt ſŷch, ac o blith y Cenhedloedd i fyned i *Ganaan* nefol

Yr Eglwys yn peri canmol Chriſt, ac edrych roſti hi. Yr Eglwys yn mawrhau Chriſt oblegit *i weli*, lle ei orphwysfa, ei Eglwys, a Chalon-hau ei bobl ſy' hardd: Mae gan Griſt *Gard* grêf gylch *ei weli*, ſef, ei Eglwys; Angelion a Gwe-nidogion y gair, ac felly y mae hi yn Ddiogel,

Mae'r *Cedyrn* rhai'n yn *wyr o Ryfel*, yn medru trîn *rfau*, a *cheddyf* yr yſpryd, i ddiogelu'r Eglwys yn mſer blinderau a phrofedigaethau tros ei holl wyd; cans yr Eglwys a ſilwria tra ar y ddaiar: ac nid yw ei chyflwr ar y ddaiar ond megis y *nos* rth y goleuni uchod.

Brenin Solomon, ie mwy na *Solomon*, Chriſt *a wnaeth iddo gerbyd*, &c. Sef, ei Efengyl fendigedig, lle nae Chriſt a'i Eglwys (fel gwr a gwraig) yn archogaeth yn anrhydeddus, a'r Efengyl hon ſy' nllygredig ac o Arogl peraidd fel *Cedar Libanus*.

Pob peth yn perthyn i'r Efengyl ſy' hardd, gwei-hfawr a chrŷf, ſef, *Gweinidogion*, *Athrawiaeth*

Palmantwyd canol hwy â ſerch
i bob Merch *Yngkaerſalem.*
11. Ewch allan merched *Sion* fryn
am hyn chwi a glodforem;
Edrychwch ar y Brenin llon
ſef *Salomon* ddoewiſol,
â,i goron ar ei ben yn hardd
diwahardd a rhagorol.
Ei Fam a roes y goron hon
ar lon-ddydd ei ddiweddi;
A'r dydd pan oedd llawenydd hy'
ei galon wedi llenwi.

[PEN *IV.*]
[*CHRIST*]

1. WELE di'n dêg ſ'Anwylyd i
wêle di'n dêg ragorol,
a'th lygaid 'ynt glomennaidd glau
rhwng dy lywethau gwrol:
Dy wallt ſy' ſel Diadell wenn
o Eifr ywchben yn pori
Ar fynydd *Gilead* yn ddilys
ymddengys lluoedd heini.
2. Dy ddannedd ſel Diadell ſydd
o Ddefaid rhydd yn rhodio
O ben i ben yn waſtad-gnaif
ni ſaif yr ûn gan ſlino
i fynu da'ent o'r olchfa oll
heb un gyfyrgoll ganddynt
Yn dwyn dau Oen yr oedd bob ûn
Heb un ddiheppil ynddynt

dewidion. Haeddedigaethau a wnaed Christ ãi Priodyn y nêf: A hyn oll yn ffrwyth cariad. Cariad riſt tuag at feibion dynion, yw calon a chalon y bl. Yr Efengyl ſy'n cario (fel cerbyd) Chriſt at ei wys, ac yn dwyn yr Eglwys gyda Chriſt i'r nêf.

1. Cyngor i *ferchaed Sion* i edrych ar a chanmol nin *Sion*: Anrhydedd brenin 'yw bod llawer yn ych arno. Rhaid *myned allan* o'r byd, o honom hunain, *Synwyr nerth, cyfiawnder*, i edrych ar Griſt yn yr anrhydedd a'r gogoniant y mae'r ffyddon i aid yn eu rho'i iddo. (*Eph.* 3. 21.) am eu hichydwriaeth, a'r *garon hon a oſodir ar ei Ben* gan echaduriaid pan dderbyniont ef yn Frenin arnynt, an ymroddant iddo mewn cyfammod trwy ffydd a hariad, d'yna Ddydd llawenydd iddo pan welo e ſur ei Enaid, Dychweliad Pechaduriaid atto.

PEN IV.

CHriſt yn Canmol hawddgarwch yr Eglwys a'r Duwiol o achos y graſau a roeſei efe iddynt: *Eu ygaid*, eu gwybodaeth, eu ffydd, a'u Dyſcawdwyr dynt bur a diwair yn edrych ar Griſt. *Ei gwallt*, ef, yr amryw Griſtnogion ynglyn wrth Griſt y en: neu ymarweddiad da ſy'n harddu Crefydd a Chriſt y pen.

Dannedd, 'yw'r Pregethwyr, ſy'i fod yn *am*, *wynion a gwaſtad*; *yn un a chytun, yn cn i'r bwyd* fel mammaeth) yn fan i'r Blentyn; *Athrawiaeth* el y gellir, ei derbyn: Ac i *argyhoeddi'n llym* y wrth a'r cyfeiliornus. *Heb un ddihepgil*, ond yn ffrwythlon yn dwyn Eneidiau at Griſt ac yn ei maethu. Mae'r Eglwys *yn Dêg* fel gwraig hawddar ym mhob rhan.

3. gwefuſau fel *yſcarlad* main
ſydd it', a'th ſain yn weddus:
D' arleiſiau rhwng llywethau im barn
fel darn *Pomgranad* melus.
4. Dy ŵddwf ſydd fel Cadarn Dŵr
gan *Dafydd* gŵr rhyfelgar,
Yr hwn a adeiladwyd fry
iw arfau'n dŷ digymmar;
Tariannau Fîl ſydd ynddo'n nghrôg,
Eſtylch i'r Arfog Cedyrn.
5. Dy Ddwyfron fel dau jwrch unblaid
o hardd Efelliaid troed-chwyrn
y rhai ſy'n pori (oll tan ri')
ymmyſc y lili clairwynn.
6. Hyd oni bo' i'r Dydd wawrhau
a ffoi 'r Cyſcodau cethin,
mi âf i Fryn y *Thus*, a'r *Myrrh*
iw ſynydd pryſſur-gerddaf.
7. F'Anwyl têg oll ynot' (da'i moes)
nid oes frychewyn lleiaf.
8. Tyr't o *Libanus* gyd â mi
gyd â mi ſy niweddi
O ben *Libanus* edrych dro,
o ben *Amana* rhodi,
O goppa *Senir* a *Hermon*
Ac o greulon locheſau
y llew, ac o ſynyddoedd ſerth
a'r Certh lewpardiaid lwybrau.
9. Dygaiſt ſy nghalon ſy Chwaer, ti
ſy nghu Ddiweddi tirion!
Dygaiſt, ſy nghalon i âg un
o'th hardd-lun lygaid gloiwon;

Dy wefuſau a'th Barabl ſy' hardd, dy ymadrodd a
ras ynddo; *gwedi eu golchi* yngwaed Chriſt. Ac *fel*
ſcarlad (heb leſni) yn arwyddo jechyd.

Ffydd y Chriſtion fel y *gwddf* ſy'n cyſſylltu'r Corph
wrth y Pen, ac ſy' *grwn, gryf, gwynn a grymmus* a
hob gras gyda ffydd yn arfau rhyfela ac yn con-
werio'r gelyn.

Ordinhadau, Sacramentau a Gweinidogion ydynt
ardd, yn llonni ac yn maethu plant Duw; neu
ariad (fel dwyfron) yr Eglwys ſy' hyfryd gan Griſt,
n yr hwn yr ymfodlona. *Dihar.* 5. 19.

Ymroad Chriſt i aros ym mynydd *Moriah* (lle'r oedd
Deml) lle'r oedd per-aroglau yn cael eu Hoffry-
nmu, a'r ordinhadau yn cael eu gweini: A hyn hyd
ddydd yr Efengyl, pan elo'r Cyfcodau heibio; Ac
n fy Eglwys (*yr hon yw fy mryn ar y ddaiar*) hyd
ddiwedd y Byd, y pryd y dygaf hi'n gyfan i'r
oleuni tragwyddol.

Mae'r Eglwys *yn Dêg* o'i Choryn i'w ſodl, yn greadur
ewydd heb frycheuyn, ond a ddichon fod gan blant
uw, a hyn y mae'n ymolchi beunydd oddiwrtho.
Num. 23. 21. ac ar fyrdr hi fydd, berffaith-
wbl.

Ymfodlona Chriſt yn ei Eglwys fel gwr yn ei wraig.
fod rhai gwendidau ynddi; nid yw gywilydd i wr
w ar ei wraig, nac i'r wraig ganlyn ei gwr; *Tyret*
nedd Chriſt) *ac fel Moſes ar Piſgah*; edrych tu a
mydd y Myrrh; gad 'th ol hefl uchel a hyfryd beth
'r Byd, Tŷ dy Dad; Canlyn fi; awn rhagom tua'r
foedd; pryſſura oddiwrth Eulyn-addolwyr a chy-
llach yr annuwiol. Tyret oddiwrth eriid wyr arllew
uadwy: glyn wrthyfi. *Tyret O Libanus, Amana &c.*
ae gan Griſt ei bobl ym mhob cwrr i'r wlad, ac
a'u caſel hwynt atto o bell a chi'r nefoedd. *Mat.* 8. 11.

Ymhyfryda Chriſt yn fawr yn ei Eglwys a brynodd
ddrud, ac am hynny efe *a'i* car yn fawr; yr

Ac âg ûn dadwyn ſydd yngylch
o amgylch d' wddw'n oeſtad.
10. Fy chwaer a'm glân Ddiweddi (clyw)
mor Dêg im' yw dy gariad!

Pa faint gwell yw dy gariad hael
na'r Gwîn ſ' yw gael mewn gwleddau;
Ac Arogl d' Ennaint (têg ei phryd)
na'r holl ddrudd beraroglau.

11. Diſeru ſel Dîl Mê y mae
gwefuſau fy Niweddi,
A than dy Daſod Mêl a llaeth
pêr odiaeth yn arogli;

Fel Arogl *Libanus* fry
dy wiſcoedd ſy'n arogli.
12. Fy chwaer ſydd ŷn gauedig Ardd
a hardd yw fy niweddi,

Ffynnon tan glo, ffynnon tan ſêl.
13. Digêl dy holl Blanhigion
Sy' Berllan *Pomgranadau*, 'i ffrwyth
Camphir lwyth, *Nardus* purion.

14. *Nardus* a *Saphrwn*, *Calamus*,
a phob pren *Thus*, *Myrrh*, *Aloes*,
Ynghyd â phob per-lyſiau teg
rhagorol anrheg eiſoes.

15. Ffynnon y Gerddi goreu 'm bron
ffynnon y bywiol ddyfroedd,
A ffrydiau o *Libanus* faith
a'u hîr-daith i'r dyſn ſoroedd.

wyt yn bob Anwyl ac agos berthynas imi, plant i'r un Tad, *Duw*: a'r un Fam ſel yr 'wyf yn Ddyn: *á llygad* dy ffydd y *dygaiſt fy nghalon*, arnat'a chyda hi y mae; *athraſau eraill* yn ymddagos mewn, ymarweddiad ſanctaidd ac ufudd-dod, ſy' hardd ſel Cadwyn. *Dih.* 1. 8. 9.

Mae Cariad yr Eglwys a'i ffrwythau yn y galon a'r bywyd yn anwyl gan Griſt, ac yn ei fodloni'n fawr; a gwell ganddo ei grafau a gwaith yr yſpryd ynddi; a'i gweithredoedd da hi na'r holl ber-aroglau mewn offrymmau, gwell yw cariad nac Aberth.

Mae llais yr Eglwys mewn *gweddi*, *mawl* ac *ymddiddanon* duwiol yn hyfryd jawn, cans o' tan y tafod, o'r galon y deuant; a'r rhai'n a'th feithrin di dy hun ac eraill, o gredadyn. Mae dy gyſnawnder a'th Sancteiddrwydd yn gymmeradwy gyda Duw.

Mae'r Eglwys yn debyg i *Ardd* brydferth ei rhodfeudd, ei blodau a'i ffrwythau yn gauedig ac yn ddidoledig oddiwrth y Byd, wedi ei murio a *gofal*, *gallu*, a *Rhagluniaeth* Dduw. Cennad i neb rodio ynddi ond Chriſt acawelo ef yn dda. ynddi mae *ffynnon* o gywir Athrawiaeth i ddyfrhau eriall. ac yn y galon y mai gras cuddiedig. *Joa* 4. 14. *Joa.* 7. 38. Ac wedi chloi a'i ſelio iw chadw'n lan ac i waſanaeth ei pherchenog.

Yr Eglwys ſy' fel *Gardd Eden*, yn llawn (nid ochwyn ond) o ffrwythau da a *pher lyſiau*; pod gras a dawn yſprydol ſy' yn y Chriſtion a phob Chriſtion yn yr Eglwys ſy' hardd ſel *gardd*, a'r pethau da ynddi, a phlanhigion o'r nefoedd, nid o natur, ydyw grafau.

Prennau ffrwythlon a pheraidd 'yw'r Duwiol, yn ſuddiol ac yn barhaus.

Pob cynnulleidfa a Chriſtion a dderbyn yn yr Eglwys a thrwyddi yr hyn a dderbyn hi oddiwrth Griſt; *neu*, ymma mae 'r Eglwys yn cydnabod fod ei holl ddoniau grafau, a'i Rhagorfreintiau yn tarddu oddiwrth Griſt, ſel yr *jorddonen* a ffrŷdiau eraill oddiwrth odrau Mynydd *Libanus*.

[*EGLWYS*]

16. Os gardd wyf' deffro ogledd-wynt,
Deheu-wynt tyret chwytha
ar lyſiau ngardd (ſy Nuw, ſy Nêr)
f' aroglau par gwaſcara :
iw Ardd ei hun f' Anwylyd doed
a boed ei drigfan ynthi,
Bwyttaed ei beraidd ffrwyth ei hun
yn ddi-waraſun genni.

[PEN V.]
[*CHRIST*]

1. DEuthym i'm gardd ſy hun ſy chwaer,
lle'm dalier ſy Nyweddi ;
Ceiclais ſy *Myrrh* a'm arogl pêr
a'm Mêl têr i'm digoni :
Bwytteis y rhai'n, yſais ſy ngwîn,
Cymmyſgais wîn â llaeth :
Bwyttewch Gyfeillion anwyl llon,
yfwch yn ddigon helaeth.

[*EGLWYS.*]

2. Myfi ſy'n cyſcu, yn fy mron
fy nghalon ſydd yn effro ;
llais fy Anwylyd yn ddibaid
wrth Ddrws f' enaid ſy'n curo ;
Gan dd'wedyd wrthyf' â llais crôch
difrôch, ſy Chwaer f' anwylyd
fy nghlomen dihalog, dy ddôr
o agor imi'n unfryd,

Yr Eglwys yn deiſyf ar Griſt trwy rinwedd ei
ryd a'i Ragluniaethau daionus a doeth) wneud
gweinidogion a'i graſau ffrwytho ac arogli'n ber-
ld ger bron Duw a'r Byd; yſpryd Duw (ſel gwynt
Ardd) ſy'n gwneud yr Enaid yn ffrwythlon. Yr
ryd ſel y *Gogledd wynt* i ddwysbigo ac oeri; ſel
Deheu i gynheſu: yr Yſpryd yn argyoeddi a didd-
u, yn gweithio gras, ac yn goſod gras ar waith.
ar hynny bydd i Griſt groeſaw a derbyniad parod
Eglwys a'r galon, Ac fe fydd pob peth wrth ei
dd ac iw ogoniant; Ac felly Caniataed Chriſt fwy
y o'i Breſenoldeb, ac ymhyfryded yn ffrwythau
as, mewn Addoliad Creſyddol ac ymarweddiad
uwiol ei bobol. Y cwbl oddiwrth ac i Griſt,

PENN V,

ATTEB Chriſt i weddi'r Eglwys yn y bennod o'r
biaen, mae'n dyſod ac yn gwrando arni *Gardd*
ſit yw'r Eglwys; mae efe'n ymhyfrydu yn ei *ffrwyth*,
yn edrych tros wendidau ei bobl (*y Dil*) ac yn der-
yn y gwael groeſaw i (*y llaeth*) yn gymmeradyd; ac
mae croeſaw i holl gyfeillion Chriſt i gymmeryd
an gydag ef, ac yn peri iddynt gym'ryd eu gwala o
Vledd yr Efengyl a llawander y cyſammod.

r Eglwys yn Cwyno rhag ei ſyrthni, oerni ei Chariad,
nerth y cnawd llygredig; ond yr oedd Chriſt a'i gar-
d yn rheder yn ei meddwl, ac o'r diwedd hi a
deffroes, a'r yſpryd a orchfygodd; rhwng cyſcu ac
ffro tybiodd glywed ei *lais* yn ei *air*, a'i *Ragluni-*
ethau a'i *yſpryd* a'r *gyduy* bod yn galw wrth ddrws ei
halon, ar iddi trwy ffydd a chariad ei dderbyn ef
'i gynghorion graſol; Ac ddarfod iddo ef (ſel Car-
ddau) oddef llawer er ei mwyn hi (Coroni ei ben a
rain &c.) heb roi un enw caled arni er ei Syrthni.

Defnynnau 'r nôs a gwlith, fy mhen,
fy ngwallt nid amgen llanwent.
3. Dioſcais i fy mhais (yn rhodd)
pa fodd am danaf gwiſcent?

Golchais fy nhraed, pa fodd yn awr
gan droedio 'r llawer y diwynaf?
4. Drwy dwll y clo ei law da'i modd
eſtynnodd fy Anwylaf,

Ac er ei fwyn mewn gwreſog fodd
cyffrôdd fy ymyſcaroedd.
5. i agor iddo Cyfodais,
Cans llais f' Anwylyd ydoedd:

Gan *Fyrrh* ar hyd heſpennau'r clo
fy nwylo diferaſant
Ar hyd fy myſedd yn ddiau
Defenynnau *Myrrh* treiglaſant.

6. Agorais im Hanwyſyd i
och fi! ond fe giliaſei
Ac aethei ymaith, f' enaid gwan
llewygodd pan ſefarei,

Yn ddyfal Ceiſiais ac nis Ceais
gelwais, nid oedd yn gwrando.
7. Gwilwŷr y Ddinas, rhai a aent
o gylch a'm Caent im' taro,

Gwil-wŷr y Crerau fy ngorchudd
(fi'n brudd) oddi arnaf dygent;
Yn doſt jawn yr archollent fi,
er maint fy nghri ni pheidient.

Eſcus yr Eglwys pa'm nas agoraſei, Fel un wedi *rolchi ei thraed ac ymddioſc*; yr oedd yn fawr ganddi godi o'i gweli Cynnes, yr oedd yn ddiog a'r gwaith yn anhawdd ac yn anamſeriol ganddi; ac yn chwennych ei droi ef heibio tan amſer arall; fel y Diog yn anhawdd Codi a chant o eſcuſion ganddo.

Ond gwreiddiol ras trwy gynnorthwy'r yſpryd a ddaw yn rymmus, ac a wna'n ewyllyſgar i agor. Rhoes Chriſt ei fys cryf yn nhwll y clo, myn'ffordd a lle at y galon er gwaetha gwrthwyneb llygredigaeth. yno i a ynodd i'w ollwng i mewn (*Pſ.* 110. 3.) wrth feddwl am yr hyn a ddioddefaſei er ei mwyn.

Ar hyn hi a gododd a chywilyddiodd achos ei ſyrthni; ras a orchfygodd: Chriſt drwy ei ras a'i yſpryd a oeſei *Fyrrh ar y clo* fel y llithre'n agored; parodd i *difeirwch a chariad* fod ar waith, fel *Myrrh* chwerw i ſas ond hyfryd ei arogl a'i rinweded.

Ni chafodd yr Eglwys ebrwydd gymdeithas a Chriſt, hyn oedd dorr Calon, a chymheſur, am iddi eſceuſo ei gariad; trannoeth wedi, ond nid yn rhy hwyr, i a'i ceiſiodd trwy *weddi*, *Dagrau*, ac *ymoſyn*, fel y ydde'n anwylach pan y ceid ef. Chriſt a giliafe ryd nas gwrthodaſei ei anwylyd, Mae hi yn cofio ei iriau ai gariad ac yn ei geiſio megis cynt.

Llywodraethwyr yr Eglwys (yn ei chwynfan) a'i cyriſent hi fel Puttain ragrithiol, ac yn lle ei chyſſuro i herlid a'i gwradwyddo, ac nad oedd yn perthyn i Griſt. *Ezec.* 13. 22.

8. Merched *Jeruſalem*! i chwi
gorchmynnaſi ; t' Anwylyd
Os Cewch, mynegwch iddo môd
mewn nychdod cariad glefyd.

[*Merched Jeruſalem*]

9. Beth yw d' Anwylyd rhagor ûn
Têg-lûn Anwylyd arall
O'r gwragedd Teccaf ydwyti
glân heini 'wyt yn ddiball :
Beth yw d' Anwylyd rhagor un
Têg-lun Anwylyd arall
Pan y gorchmynni ni fel hyn
heb Sôn am ûn dŷn arall?

[*EGLWYS*]

10. F'Anwylyd ſy' wridoc a gwynn
ar Ddengmîl ſy'n rhagori.
11. Pen fel aur Coeth, ei wallt Crŷch glan
i ddu-fran ſy'n tebygu.
12. Ei lygaid yn Glomennaidd ſydd
wrth lann atonydd dyfroedd,
Golchwyd â llaeth, yn gymwys lonn
goſodwyd ; tirion ydoedd.
13. Fel Blodau peraidd ei ddau Rûdd
heb gudd, fel gw'lau pêr-lyſiau,
Fel lili yn diſer i *Myrrh*
yn bybyr ei wefuſau.
14. Ei Ddwylaw fel modrwyau aur,
llawn cair o *Beril* feini,
A gwiſg o *Saphyr* am ei Fol,
fel nodol ddiſclair *Iſri*.

8. Pan nas cai gyfarwyddyd at Grift gan y Dyſca-
ŷr mae'n troi at ei chyd-broffeſwŷr ac yn deiſyf eu
weddi troſti, a Dyweud wrtho (os medrent ei gael)
bod yn glâ o gariad, a hiraeth am ei gariad a'i gymdei-
as; nid gwaeth oedd ganddi eu churo a'i Chywilydd-
gan y Gwilwŷr os cai hi ei *Chriſt*: Clefyd y cariad
vn a droe'n i ech yd.

9. Atteb y cyd-broffeſwŷr; *yr ywt yn degg ragorol*;
aid i'th Anwylyd yn ſicr ragori ar bawb Mae gras
harddu yngolwg pawb. (1.) Rhai a fwriant fai ar e-
ll am fod a Zêl ganddynt tros Grift ac a chwarddant
eu pen megis rhodreſwŷr. (2.) eraill ſy' dda gan-
ynt glywed am Grift ac a chwenychent gael gwell
nabyddiaeth o hono gan y rhai a'i hadwaenant ef yn
; Mae Zel rhai yn gwreſogi eraill.

10. Yr Eglwys a ŵyr pa fath yw *Chriſt* pan fo' o'i
wg, yn yw'n rhagori mewn *Tegwch a gwerth* ar
vb: *gwynn a choch yw*, glan yn ei ogoniant a'i ras,
-wynn a diniwed: *Côch*, wedi tywallt ei waed:
il. 3. 8. gwell nac Angylion, Pentywyſog pawb
w.

11. Pob peth a phob rhan ynghriſt ſy' ragorol o'r haw-
ar, *o'i Ben i'w Draed.* 1 *Cor.* 11. 3. *Col.* 2. 9. neu,
Chriſt iw ei *Frenhiniaeth* a'r y Bŷd ac yn yr Eglw-
Ai wallt yn Ddu, yn oeſtad yn jeuangc ac iraidd,
ur-ddu.

12. *Ei lygaid yn deg*, gloiw, diwair, diniwed *fel colom-*
d wrth afonydd, lle'r hoffant fod, ac yr ymudengys
llygaid lana', fel pe ba'ent *wedi golchi a llaeth*, yn
wys, nid ymmhell i mewn nac allan i'r Pen; *llyg-*
ur ſy' gan Grift ac yn gweled pob peth.

13. *Gruddiau Chriſt fel gwelau per-lyſiau mewn gardd*,
bdiad ynddynt, a hyn 'yw eu harddwch, mae *un*
o wyneb *Chriſt*, ſef ychydig *Ddatcuddiad* o hono
lus a hawddgar, a phob *ymadrodd* o'i enau yn felus
fryd.

14. *Dwylo Chriſt* yngolwg yr Eglwys ſy' *fel Mo-*
au aur, Holl waith ei ras a'i ragluniaeth ſy' bur cy-
og a hardd; ei ddwylo'n derbyn pechadur, yn
gras, ac yn coſpi'r annuwiol 'ynt bur a hardd. *Ei*
ef, ymyſcaroedd ei Doſturi a'i gariad ſy' deifeiriol,

15. Ei goeſau fel colofnau Siwr
o *Farwur* wedi goſod
Ar wadnau o aur Coeth ; ei bryd
fel hyfryd *Libanus* hynod.
Dewiſol fel y *Cedr-wydd*
a llonydd yw t' Anwylyd.
16. Odiaeth o'r melus yw (iw glôd)
taflod ei enau hyfryd ;

Ie y mae yn hawddgar oll
heb goll. hwn yw f' Anwylyd,
Dymma fy nghyfaill : (rhowch im grêd)
merched *Coerſalem hyfryd*

[PEN VI.]

[*Merched Jeruſalem.*]

1. I Ba le'r aeth p' Anwylyd hwn
didwnn, Deccaf o'r gwragedd
Fel y ceiſiom ef gydá thi
o ddifri ; p'le mae'r Cain-wedd ?

[*EGLWYS.*]

2. F'Anwylyd aeth iſod iw Ardd
i hardd welau'r per-lyſiau,
i ymborth yn y gerddi, tru
i gaſclu lili flodau,
3. F' Anwylyd ſydd yn eiddo fi
wyf eiddo iddo eilwaith,
Y mae'n Bugeilio'i Ddefaid blith
ymmhlith y lili perffaith.

Ei goeſau a'i Draed, ſef ei holl ſymudiadau, a
e bynnac y goſodo'i dꝛoed a'i deirnas, hi a ſaif er
tha pawb ; a'i holl Symmudiadau 'ynt hardd a
ad: Hardd 'yw pob golwg ar Griſt ac yn denu lly-
atto.

Genau Chriſt ſy' felus odiaeth, ſel *llaeth* i blant, ſel
ei orchmynion, ei addewidion, a phe dywedwn
no tros byth ni ddeuwn i ben mynegu ei odidaw-
dd a'i hawddgarwch ; ond mewn yngair, Mae'ſe *oll*
i ben, ymhob peth o Dꝛagwyddoldeb i dꝛagwydd-
yn hawddgar ; mae *oll yn Hawddgar* a phob
dgarwch ynddo. *Dymma Anuylyd* ſy nghalon i
cyfammod. Neb ond *Chriſt* imi, a chwi (Fer-
Jeruſalem) ellwch er gael ef os mynnwch gyda'm ſi

PEN. VI.

An fod yr howddgar Eglwys yn canmol cymaint
ar Griſt mae *Merched Jeruſalem* yn chwenych ei
a'i geiſio ef o ddiſri gyda hi, yr hon a wydde oreu
byddent gyffelyppa iw gael ef : Pan ſo' Duw
ei air a'i yſyryd yn datcuddio ei Fab, daw rhai iw
; 'r oedd yr Eglwys wedi bod yn ceiſio gan *Fer-
Jeruſalem* fynegu p'le'r oedd *Chriſt* ; yn awr
hwy yn gofyn iddi hi am dano yr hon a wydde
Cymmundeb a *Chriſt* ſy' iw gael mewn cym-
eb y Saint.

Yr Eglwys yn atteb, fod *Chriſt* in ei Eglwys Ga-
, ac gn y cynnulleidfaoedd neſulltuol, lle mae gra-
ſpryd yn blodeuo, ordinhadau yn cael eu gweini,
yn rhoi ei breſennoldeb, yn caſelu'r Etholedi-
w Eglwys a'r addfed Saint i'r nefoedd.

Mae'r Eglwys yn cael Cymmundeb gyda *Chriſt*,
erwydd hynny, yn ſicr o'i hawl ynddo, Ac yn
loni yn hyn ; Ac yn glyna wrth y rhai y Prof-
Chriſt ynddynt.

[CHRIST.]

4. Têg ydwyti ſ' Anwylyd da
ſel Dînaſ *Tirzah* gaeroc,
Gweddus megis *Caerſalem* ſry ;
ofnadwy lu baneroc !
5. Dy lygaid tro oddiwrthyf ; pam ?
can's hwy a'm gorchfygaſant
Dy wallt ſel llu o eifr yngwlâd
Gilead a ymddangoſant.
6. Dy Ddannedd ſel Diadell ſydd
o Ddefaid rhydd ond rhodio,
i fynu daent o'r olchfa oll
heb ûn gyfyrgoll yno,
Yn dwyn dau oen yr oedd pob ûn
heb ûn ddiheppil ynddynt.
7. Fel Darn *Pomgranad* d' arleiſiau
rhwng dy lywethau ydynt.
8. Tr'igain o Frenhineſau têg
wyth ddeg o ordderch wragedd,
Ac o langceiau tros ben rhi
a welais i yn aur-wedd.
9. Fy nghlommen hi nid yw ond ûn,
hawddgaraf lun, nihalog,
Unig ddewiſol ydyw hi,
gan 'rhon fu arni n' feichiog.
Y merched gwelſant hi (y ſant)
galwaſant hon yn ddedwydd,
Y Brenhineſau molent hon,
a'r gorddercha don hylwydd.

. Chrift wedi dychwelyd at ei Eglwys, yn ei chan-
hi; *yn deg fel Tirzah.* Dinas hardd yn llwyth
naſeh. *Ac megis Jeruſalem,* hawddgar ei llannerch
hadeilad *Pſa.* 123, 3. y Ddinas Sanctaidd ydoedd;
wys Chriſt tan yr Eſengyl ſy' hardd; ynddi mae
legr Duw, ac yno mae Duw yn aros ac yn derbyn
vl: Mae'r Eglwys yn ei jawn Farnau yn taro
yn ei gelynion, a chydwybodau, ac yn anrhydeddus
olwg yr holl Saint.

6. 7. Werſi-----Nid yw *Chriſt* yn newid m'oi
am yr Eglwys, nac yn llwyr ſymmud mo'i gariad,
fod yn ymddieithro am dro; Mae Chriſt yn ſefyll
i gariad, a hyn a ddywaid efe unwaith a thracheſn.
len *Pen.* 4. 1. 2. 3. lle'r agorir yn helaethach.

Mae yn y Byd Frenhineſau lawer yn deg a gwych
olwg Brenhinoedd daiarol, ac yn cael ffafor yn eu
g hwynt: a chan Frenhinoedd mae dewis ordderch-
gedd, ac i'r rhain oll forwynion anrhydeddus yn bri-
lygaid o amgylch.

Ond medd Chriſt y Brenin nefol, mae ſy Eglwys
rhagori ar holl lyſoedd brenhinoedd a chymanfeudd.
ſy Eglwys un anwylach a hawddgarach imi na'r
l; mor anwyl ag unic ferch gan ei man. Mae hi
nctaidd a dihalog, yn cael ei chanmol gan bawb a
hant arni yn ddiragfarn. Ceiff yr Eglwys a'r Du-
Dyſtiolaeth cydwybodau ac weithiau tafodau'r byd
d yn deg trwy Sancteiddrwydd.

. Yr Eglwys yn y Byd a gras yn y galon'ynt ryfedd
g, fel *goleuni'r* boreu yn ol *tywyllwch y nos,* fel y
, a'i brychau, ei goleuni benthyg, a'i diffygiadau;
, ond goleuni'r nos ydyw; ond yn fwy mae'r
ys *fel yr Haul,* yn bur yn ſy ngolwg i, a thrwy ſy
hawnder; ac hi fydd yn berffaith pan ddelo i'r nef;
l y mae'n bur lan, felly y mae'n ofnadwy yn ei
wr milwrus, yn gorchfygu ei gelynion gan ei bod
ei dyſcu i ryſela trwy ffydd ac i lyna wrth Chriſt
fengyl.

10. Pwy ydyw hon ſy' fel y wawr ?
mor ſawr, mor deg a'r lleuad,
Ac fel yr Haul yn bûr, yn wîr
er braw fel Mil-wyr ſagad !
11. Euthym i wared i'r Ardd gnau
i edrych ffrwythau 'r dyffryn,
A flodeuafei gwin wydd per
yn ol ei harfer dichlyn ;
A flodeuaſeir yn yr Ardd
pren hardd y *Pomgranadau.*
12. Fy Enaid fel *Amminadib*,
cyffelyb i'w Gerbydau,
Heb wybod im fel hyn yr aeth
yn helaeth ar yr olwyn.
13. Y *Sulamithes* dychwel, tro
heb ado mwy mo'th gynllwyn :
Oh dychwel, Dychwel yn ddi-ſiomm
fel yr edrychom arnat ;
Oh dychwel unwaith, na bydd groes
nid oes ond Sôn am danat.
Beth yn y *Sulamithes* hon
yn dirion a ganfyddwch ?
Yn Gynnulleidfa bleidiog dda
Tyrfa dau lu mewn heddwch.

[PEN VII.
[*CHRIST.*]

1. MOR deg pendefig Ferch y gwnaeth
dy Draed ti mewn eſcidiau !
Cymmalan dy Forddwydydd ſydd
Waith Celfydd fel teg Dlyſau.

. Chriſt wedi ail gymmodi â'i Eglwys, yn mynegu
le y ciliafei, ſef, i'r yw gongl o'r *Ardd*, a'i lygad ar-
edrych ar ei hawddgarwch oddimewn, er i bod ſel
caled oddiallan ; Ac i edrych pa obaith oedd o ffrw-
mewn amſer : i edrych oedd ffrwyth iw gael yn y
ſa lle'r oedd moddion lawer, ac ni ddiyſtyre efe mor
u, mo' Ddydd y pethau bychain

. Chriſt yn canfod cychwynfa, ffrwythau a galar yr
wys ymroes iw ddatcuddio'i hun iddi (ſel Joſeph iw
r) Chriſt aeth yn gyflym atti, *ſel cerbydau Ammina-*
buan a hwylus——neu *fy enaid a'm goſodai ar*
dau fy mhobl ewyllyſgar. Sef hwy a anfonaſant ger-
u *ffydd*, *cariad*, *gobaith*, *gweddiad* i'm cyrchu, ac yn
i'n y dychwelais at fy Anwyl Eglwys.

. Yr oedd yr Eglwys wedi cilio oddiwrth Griſt, ac
awr Chriſt yn dychwelyd wedi iddo ynte
oddiwrthi hi, a rhag iddi ofni ol guwch ef, na bli-
n aros am dano ; mae efe a llais uchel yn ei galw'n
gyfarfod ef. Ho, Ho, *Sulamithes*, ſef, Dinaſyddes
, neu wraig *Salomon* (y cyſcod o Griſt) ar ôl ei e-
Fel Chriſt a Chriſtion, pryſſura at dy Briod Jeſu,
dy ben na fydd yn alarus, tyret at orſeddfainc gras ;
imi, i'r Angylion, a phroffeſwyr ffyddlon neullduol
veled : ——*Peth a welir yn y Sulimathes hon ?*
ſt yn gofyn ac yn atteb ; *megis tyrfa dau lu* ; ſef,
dd ei ffordd i'r nêf, ymdrech rhwng yn cnawd a'r
d. *Dau lu*, Juddewon a chenhedloedd yn ûn.
lwch yr Eglwys a'r Angylion yn *ddau lu* gyda'i gi-
: edrychwch ar ran o honi ar y ddaiar a'r rhan arall
nêf, yr yn Eglwys er yn *ddau lu*.

2. Dy Fogel ſy' fel gorflwch crwn
a hwn heb eiſiau lleithder
Dy Fru fel twr o wenith cann
â lili pan amgylcher.

3. Dy Ddwyfron fel dau lwdn jwrch
(mewn harddwch) o Efelliaid.
4. Dy wddf fel twr o Iſori
gwreichioni mae dy lygaid,

Fel pyſcod lynnoedd yn *Heſbon*
(mor llon) wrth borth *Bath-rabbim*
Dy Drwyn fel *Libanus twr*, di-wyr
uwch mûr *Damaſcus* awchlym.

5. Dy Ben ſydd uchel arnat fel
hardd godda *Carmel* fynydd,
A'th wallt fel *porphor* ; y Brenin
ſy'n rhwym yn y rhodfeuydd.

6. Mor dêg, mor hawddgar wyt (di-
fy nghariad a'm hyfrydwch. wâd)
7. Dy uchder fel *Palmwydden*, ſydd
uwch coedydd yr Anialwch.

A'th Fronnau 'ynt yn deg, yn llawn
tebyg i'r gwin-rown Syppiau.
8. D'wedais i'r *Balmwydden* dringaf,
ymaflaf yn ei cheingciau ;
Yn awr dy fronnau fyddant lawn
megis y grawn-ganghennau
Ar wîn-wydd : ac i'th ffroenau mae
Aroglau fel aralau ;

PEN. VII.

CHRIST y brenhinol Briodfab yn myned rhagddo i ganmol tegwch y Briodferch, yr Eglwys; e a i geilw ar Enw newydd *y Ferch Pendefig*, o ran gedigaeth newydd ac ymarweddiad hardd: *Dy Draed*, mmudiadau dy galon a'th ymarweddiad ar ol dy lychweliad o ffordd gyfeiliornus. *A'th eſcidiau*, wedi y ryddhau oddiwrth bechod, a'th barattoi a pharatoad Efengyl, yr hon a wna dy *draed* yn ſefydlog, ac a'u idw rhag niwed. *Eph.* 4. 16. pan fo'r ffyddloniaid ymalau'r Eglwys) yn rhodio mewn undeb cariad a ymundeb y Saint, o Brincipl da mewn jawn fodd, yno mae *fel tlyſau hardd.*

2. *Dy fogel*, ſef, ofn Duw a lleithdr ordinhadau ſyfa eithrin y plant yn y groth: *gwenith* er ymborth i rai cywn; *a lili* er harddwch i'r Eglwys: mae pob peth barod i feithrin holl gorph yr Eglwys.

3. *Cafwyd hyn o'r blaen yn Pen* 4. 5.

4. *Dy wddf*, Pen 4, 4. *Dy lygaid*, Dy ddeall a'th riadau 'ynt loiw a glan. Pen 1. 15. *Dy drwyn*, yn ogli rhagor rhwng drwg a da: ac yn troi tuag at dy ynion yn ddiofn, *fel Tur Libanus*, lle'r oedd gwilwyr n *Salomon* y gwilied rhag y *Syriaid.*

5. *Dy Ben*, dy feddwl ſy lawn o ddeall da ac yn hel fel *Carmel*, yn ceiſio 'r pethau uchod: *Dy wallt*, a ob rhan o honet ſy'hard; ac y mae'd 'r Brenin Jeſu ymhyfrydu o fod yn dy gymmundeb mewn Ordinhau. *Pſa.* 132. 13. 14.

6. Oh 'r Eglwys! anorphen fydde adrodd y cwbl am nat. ond *yr wyt oll yn dêg*, gwych yw cymdeithas a i; mae Sanctteiddrwydd yn hawddgar ym mhawb.

6. Mae Taflod d' enau fel y gwîn
goreu, i fîn f' Anwylyd.
Yn felus jawn i lawr y rhed,
cei weled rhinwedd hyfryd :
Pair i wefuſau draethu'n ffraeth
a fyddant gaeth gan gyſcu,
Ac ar ei ôl ceir clywed llais
(tirion-lais) yn lleſaru.

[E G L W Y S.]

10. Eiddo f' Anwylyd ydwyfi
mae attfi ei Ddymuniad
11. Tyret f' Anwylyd yn ddioed
i'n maes boed ein cerddediad,
Llettewon mewn pentrefydd draw
12. Heb fraw y boreu codwn,
Ac i'r gwîn-llannoedd awn ein Dau
am flodau yr edrychwn,
Cangau 'r wîn-wydden chwilio a wnawn
am egin grawn-wîn gleiſion,
A'r *Pomgranad*; lle rhoddafi
Fy nghariad iti 'n union.

13. Y *Mandragorau* têg ei gwedd
Arogledd a roddaſant :
Ac wrth ein Dryſau ni bôd Dŷdd,
heb gudd ac yn ddilyſſiant,
Mae pob rhyw ffrwythau peraidd gwîr
digymmar hên a newydd ;
Y rhai a rois f' Anwylyd i
i gadw iti bounydd.

7. Mae'r Eglwys yn union ac uchel tua'r nêf, yn tyfu r gwaetha pob rhwyſtr, a ffrwyth da yn meithrin, fel Bronnau.

8 Chriſt yn ymhyfrydu yn ei Eglwys ac yn dal y Chriſtogion jeuangc rhag Syrthio, na'i dryllio gan wynt. A han fod Chriſt yn ei Eglwys, efe a'i gwna'n ffrwythlon, c a ymhyfryda yn ei ffrwythau. *Gen* 8. 20. 21. Sef ddoliad, gweddiau, mawl &c.

9. Archwaithiad yſprydol yr Eglwys oedd hyfryd gan Griſt, ei Hymadroddion yſprydol fel gwind a melus ac d bywioccau y cywir ddychwelwr ſwrth a'r annychwedig gyſcadur.

10. Yr Eglwys (wedi clywed Chriſt yn ei chanmol) 'n gorfoleddu yn ei pherthynas iddo, ac yn ymrodd ddo ac iw waſanaeth. a cheiſſ fod yn wr iddi. *Gen.* 3. 6. o pa hiraeth oedd ar Griſt am ddyfod i'r byd a marw os ei bobl! *Luc.* 12. 50. ac er mwyn eu dwyn i D Dad.

11. Yr Eglwys yn gwahodd Chriſt i gyd-rodio a hi, mwyn gwneud ei chwyn wrtho, a derbyn cyngor a hyſſur; *awn i'r maes* (*fel Iſaac*) ymmhell oddiwrth rwſt a thraferth y byd fel y caffom ddi-rwyſtr gymdeias; mewn Tŷ, trêf, maes; cymerwn Griſt gyda ni, hyn yn foreu, yn jeuangc ac o flaen pob peth arall: b lle a pheth er gwaeled f'ont, fydd dda ddigon os ceir hriſt yno; *y pentrefydd*, cyſtal a'r dinaſoedd a phalau.

12. Da yw *codi'n foreu*, heb gyſcu fel y gwneuthym nt; ond (mewn jeunctid a chyn twrwf y byd edrych newn fy Enaid, *fŷ ngwinllan*: Ac hefyd pa fodd y mae ydâg Eglwyſydd neullduol, pa gychwynfa a gobaith rwyth ſy' ynoſi a hwythau a chyda hwynt tan ordinhau y rho'ſ arwydd a ffrwyth cariad.

PEN VIII.
EGLWYS.

1. ONa bait' im' ſel Brawd dinam
Bronnau ſy Mam yn Sugno,
Allan i'th cawn, cuſſanwn di
Ac ni'm di mygid etto.

2. Arweiniwn, dygwn di i Dŷ
ſy Mam gu 'rhon a'm dyſcai :
Gwnawn it' yfed llyſieuog wîn,
Sugyn ſy *Mhomgranadau.*
3. Ei Aſſwy law bydd tan ſy mhen
â'i Ddehau wenn cyfleidiau.
4. Tynghedaf chwi y merched fflwch
os mynnwch fod yn ddifai :
Er mai *Caerſalem* yw eich Trêſ
na chodwch lêf mewn cyffro
Ac na ddeffrôch ſy nghariad i
ei hun hyd oni ſynno.

[*Merched Jeruſalem*]

5. (Pwy ydyw hon a'i chyflym dro
ſy'n teithio ar i ſynu
O'r maith anialwch ac â'i phwys,
gan orphwys ar yr Jeſu !)
]*EGLWYS.*]
Tan gangau yr Afallen dêg
ar oſteg i'th gyſodais
Lle i'th eſcorodd dy Fam di
yno tydi a geſais

13. Mae'r Eglwys yn addaw i Grist bob croesaw ca-
d, a chanddi iw dderbyn ef bob llysiau a ffrwythau ;
b gras a gweithred dda *wrth y Drws*, yn barod iddo
yn amlwg i bawb : Stôr fawr a da, *Hên a newydd*,
th ddrws y galon, y gwesusau a'r Bywyd, i wasanaeth
goniant ac i ryngu bodd Christ.

PEN VIII.

MAe'r Cariad rhwng Christ a'i Eglwys cyn gry-
fed yn y Diwedd a'r dechreu : Mawr Ddumu-
ad yr Eglwys am gael mwy o gymdeithas a Christ, *fel*
iviorydd a Brawd, plant yr un Tâd a Mam, cael mwy
yspryd Christ iw Sancteiddio *Heb.* 2. 11.

hai a farnant mae'r *Juddewon* oedd yn hiraethu am
yfodiad Christ yn y Cnawd. *Eraill*, mai hiraeth yr
glwys gyffredin am ail Ddyfodiad Christ i gynnal y bri-
as : Hi a'i galwai ef yn *frawd*, fel ynte hithau'n
waer. *Pen* 5. 1. Dim cywilydd o garu Christ yng-
ydd pawb.

2. Mi a ro'wn iti (fy nghnist) y lle a'r Croesaw goreu,
yn yr ordinhadau y daliwn di lle i'm *dysgyd* fel *merch*
n ei *mam* ; yno y bydde fy nghalon yn agored a'm
asau ar waith ith ryngu bodd a'th ogoneddu.

3. Yr Eglwys yn hyderus o ofal, amddeffynfa, ac
ngeledd gan Grist. *Pen* 2. 6.

Yr Eglwys (megis mam) yn gorchymmyn i'w holl
nt a'i haelodau wilied rhag cyffroi Christ a'i han ys-
yd. *Pen* 2. 7.

5. Yr Eglwys yn dysod i fynu o Anialwch pechod a'r
d tua'r nefoedd yn pwylo trwy ffydd a'r Grist sy'
wg gogoneddus. *Pen* 3. 6.

6. Gofod fi megis ſel (yn graff)
yn argraph ar dy galon,
Fel ſêl ith fraich, can's cariad ſy'
yn gry' fel Angeu greulon:
Eiddigedd ſy' fel creulon fêdd
a'i farw or rhyfedd tanllydd,
a fflam angerddol iddynt ſydd
fel tanwydd poeth-chwyrn gynnud.

7. Y Dyfroedd lawer er eu maint
a'r lliſeiriaint yn codi,
Gwir Gariad, nac yſprydol chwant
nis gallant mo'u diffoddi,
Nid Dŵfr a'u bawdd; pe rhoddei ŵr
yn bentwrr ei holl olud,
neu lon'd ei Dŷ o'r neu i'r llawr
â dirmyg mawr dirmygud.

[*Eglwys yr Sddewon*]

8. Chwaer fechan ſydd i ni 'n ddiau
nid oes mor Bronnau iddi
Pa beth a wnawn i'n chwaeran brudd
y Dydd y d'weder troſti,

CHRIST

9. Os Caer yw, arni Balas glân
O Arian adeiladwn
Os Drws yw hi, â *Cedr-wydd*
yſtyllod dedwydd Caewn.

Aden a chyſcod Chriſt y Cenhedlir y Chriſtion, ac maer Chriſtion yn cyſodi Chriſt trwy *weddiau*, , a *myfyrdodau* iw chynnorthwyo; yno'r eſcorodd glwys ar Griſt yn dy galon ac ymmhob aelod o'r ys. neu cymrwch y geiriau fel hyn; *Chriſt ſy'n comeirw ac yn peri iddynt gael eu goni oddiuchod o'u Eglwys: Yr Afallen ymma yw Chriſt* Pren y bywyd, wy Rinwedd ei yſpryd ef y cyfyd y pechadur o be-, ai Fam (yr Eglwys) ſy'n eſcor arno ar ei ail aneth trwy 'r gair a'r yſpryd. Chriſt ſy'n cyfodi, a'r ys ſyn eſcor ar bechaduriaid. *Datc.* 12. 1. 6.

7. Yr Eglwys yn gweddio am ſiccrwydd a pharhad o d Chriſt, fel peth wedi ſelio: ſyngharíad i tuag atafi riſt ſy' mor gryf; am Zel mor wreſog nad oes dim gorchfyga *Rhuf.* 8. 35. *hyd y diwedd.* gad imi ſod gos attat' ar dy galon. *Ex.* 28. 11. 12. a'm *Eidde*- a'm ofn ſy' rhag iti fy eſceuluſo neu imi dy anfodlo-. Ni cheiff na blinderau na phleſerau na golud y rwyſtro mo'm Cariad tuag attat Chriſt.

Y Briodferch, ſef, yr Eglwys tan yr *Hen Deſtament* Sôn am Chwaer-Eglwys i ddyfod or *Cenhedloedd*, (a i fod yn chwaer hefyd i Griſt) yr *Iuddewon* oedd yn dio troſti. *Iſ.* 54. 1. Chwaer, Duw ac Adda yn . ond *bechan*, heb wybodaeth; *Dim bronnai*, dim thyr, dim pregethwyr, dim cyſſur, dim cyfammod; gweddi ſy troſti a phawb ſy'n perthyn i Etholedigaeth . *Joa.* 10. 16. *Dydd* addaw i fod ganddi *Fronnau*, ddion a chyſſuron grâs. *Chriſt a'i Apoſtolion y rhai ynt Iuddewon a ddywedaſant am droedigaeth y cenhedd, a phregethaſant iddynt..*

. Mae *Chriſt* a'r Eglwys yn cyttuno beth i'w eud mewn perthynas i'r cenhedloedd. *os caer lent*, yn gadarn yn y ffydd ynghriſt y Sail

[*Eglwys yr Ỳddewon*]

10. Caer ydwyfi am bronnau ſydd
ſel Tyrau hyfwydd Brenin;
Ceddwn ſel ûn iw olwg hael
yn cael ei ffafor dibrin.

[*CHRIST.*]

11. Yr oedd Gwînllan i *Salomon*
yn *Baal hamon* waelod,
Gofododd ef y winllan hon
i ddoeth warchadon hynod.
Pob un a ddygei am ei ffrwyth,
ei lwyth oedd fîl o arian.
12. Fy ngwînllan i ſy' ger fy mron,
it' *Salomon* y rhoddan
Nid llai na Mîl; i'r lleill ddau cant,
ei ffrwyth a gadwant iti
13. Oh tydi yn y Gerddi (gwŷch
da'u gwrŷch) yr hon a drigi,
Yr holl gyfeillion ar dy lais
(mewn ymgais) a wrandawant:
Pair immi hefyd glywed hwn
mae'th ſwn yn hardd ddilyſſiant,

[*EGLWYS.*]

14. Bryſſia ſ' Anwylyd, ar dy ffull
mewn dull fel jwrch da' i ſodlau'
Neu lwdn hŷdd ar (dirion wedd)
Fynyddoedd y Pêr-lyſiau.

faen, Ni a'i gwnawn yn wŷchach bob dydd. *Eph.* 21, 22. *os Drws*, yn egwan, nyni, Tad (y Mab a'r ryd) a'i cadarn hawn rhag i neb ei dorri, a thrwyddynt yy y deuir i mewn i'r Eglwys.

10. Eglwys yr *Juddewon* yn cydnabod cariad Duw tutti hi, a darfod iddo o'i ras ei gwneud hi'n gryf ac yn wythlon ac yn hardd yn ei olwg; fel yr oedd yn gweo ar i'r *Cenhedloedd* gael eu gwneuthur.

11, 12. Yr agoriad cewch yn *Matth.* 21. 33. &c. *lomon* yn gyfcod o Grift, a'r *Winllan* o'r Eglwys; y *inllan* oedd fawr, ac Ardreth mawr iw ddifgwil oddithi *lle bydde mil o win-wydd yr oedd mil o ddarnau ariam y ffrwyth. Efai.* 7, 23. Hoff gan Grift ei winn a rhodio ynddi: fe ddylae pawb yn ol ei allu wilied y win-llan, a dwyn ffrwyth o *goniant* i Grift, a afanaeth i'r Eglwys yn ol y rhagorfreintiauo a dderiant. Mae'r Eglwys ger bron Chrift, tan ei olwg ofal ddŷdd a nos: A phob aelod o'r Eglwys fy' adw gwinllan ei galon. *Chrift* fy' i gael yr Arh mwya, Pregethwyr a phob gwiliadwrus Griftion eiff fodlondeb. 1 *Cor.* 15, 58.

. Chrift a'i Eglwys yn ymadel amdro, hi ar y ddaiar e yn y nef, ond Chrift a Chwennych glywed oddiwrthi. e'r Eglwys *yn aros yn y Gerddi* o neulltuol gynnullfaoedd, lle mae ordinhadau a chymmundeb y Saint, hai fy'n *cyd-weddio, cydfolianu* &c. *Mal.* 3. 16. llais Eglwys fy' iw wrando cyn belled ag y mae'n cyttuno a Chrift. Ac ni ddylae'n cymmundeb gyda'n gilydd ftro mo'n cymmundeb gyda Chrift. Di a gwyni h ddynion, cwyna wrthyf innau hefydd.

4. O fy nghrift! os bydd rhaid ymado am dro, bryfy waith ar y Ddaiar, trwy beri i Deyrnas *gras* lwy-, ac i Deyrnas *gogoniant* ddyfod ar frys. Yr wyf yn ethu bod yn y Nef yn oeftadol gyda thi; Bŏd gyda ift llawer gwell ydyw: Pan ddyger yr holl Etholon i gredu, yr Eglwys a gippir o'r ddaiar i'r Nef yr wys fy'n bryffio at ddyfodiad. Dydd Chrift; pryffura ail ddyfodiad *Tyred Arglwyda Jefu, ttyre ar frys.* 2, 17. Amen.

Hymn, ynghylch rhai o Enwau Scrythyr Christ.

TI *Hâd y Wraig*, yſſigaiſt Siol
y Sarph Wenwynol greulon,
I heppil Adda rho'iſt ryddhâd
ti *Hâd i Abra'm* ffyddlon.
2. Y *Shiloh* mawr, uwch torriad wawr
a *Seren Jacob Siriol*,
Y *Prophwyd* doeth o ddawnys ddyſc
i'n myſc; ein *Prynwr* nerthol.
3. *Chriſt* ac *offeiriad* wyt mewn trîn,
A *Brenin y gogoniant*
Yr *Arglwydd Dduw*, y *Maen*, y *Sail*
Pen adail faen dilyſſiant.
4. *Doetbineb*, *Rhoſyn Saron* wych,
a diſtrych *Lili'r Dyffryn*
Y *Pren afalau* têg ei bryd:
Anwylyd dy lawforwyd,
5. *Ffynnon y gerddi* glân a'u llyn,
Blaguryn hardd yr Arglwydd;
Yr Arglwydd ein cyfiawnder rhâd:
Cainge Jeſſe Tâd i Ddafydd.
6. *Immanuel*, *Duw Cadarn* da,
Cynghorwr, a *Rhyfeddol*,
Iwyſog tangneddyf yn ddiwâd;
a'r tirion Dâd tragwyddol.
7 *Gwâs*, *Exholedig* mawr ei fri,
goleuni y Cenhedloedd:

Braich yr Arglwydd, *Haul* yn llawn
Cyfiawnder jawn i'n tiroedd.
. *Bugail*, *Meſſiah*, *llywydd* llen,
i Iſrael dirion deulu.
c *Angel y Cyſammod* rhydd,
Achubudd yw Chriſt Jeſu.
. Y gwir *Fab Duw*, *a Dŷn*; *y gair*,
y diwair *Nazaread*;
en Duw, y *Manna*, *Bara* Duw,
Drws yw, a'r *Adgyfodiad*.
o. *Gwirioneddd*, *ffordd*, *Gwinwydden* bûr,
jachawdur, a *chyfryngwr*;
angneddyf, *Craig*, a'n *Heſcob* llon.
Pâſc cyfion ac *Eiriolwr*.
ı, *Alpha*, *Omega*, *ffyddlon Dŷſt*,
Diathriſt *Lew llwyth Judah*,
riodfâb diddig, *Bywiol Bren*,
'R *Amen*, *yw Chriſt* Jehofah.

Hymn ar y Sacrament. I.

. F' Anwylyd gwynn o Zion fryn
Canfyddi blant dy Dad,
)y treiniol wedd fy' felus wledd
a llawenychdod gwlâd.
. O'th cellocdd llawn daw pôb rhyw ddawn,
wrth raid i'r rheidus gwâr,
)nd dŷn di-râs ni phrawf fod blâs
ar Griſt, gan faint ei fâr.
. Mae blŷs a chwant ar fywiol blant
eael llawnder y cyfammod,

Dihuddaw Ion i'r Sugtion Ion,
a Duw trwy Grift mewn cymmod.
4. Cael hefyd hyn fel Dû ar wynn,
Cael *Sêl* ddigêl a *Thyſtion*,
Cydwybod wiw, ac *Yſpryd Duw*,
yn Urddas i'r arwyddion.
6. Cael nerth ddiffael yr yſpryd hael,
i gynnorthwyo gwendid:
Cydwybod lon o fewn eu bron
I wneud eu Bŷd yn hyſryd.
6. Duw wrthyti diſgwiliais i,
Diſgwiliaf wrthyt etto,
Mewn llawnder brŷd, gael hyn i gŷd;
ni naccei'r nêb a gretto.
7. Tryſſorau rhâd trwy ordinhâd
y Swpper Sacrafen,
Cawn yn ddidlawd o law ein Brawd,
a'n Chriſt ein Pen: Amen.

Hymn II.

1. AFradlon yw holl ddynol ryw,
a meirw mewn pechodau;
Mewn dryſni Caeth yn mynd waeth waeth,
ynglyn gan Ddiafl mewn maglau.
2. Yn ffau y llew tywyll du-dew
yn gorwedd yn ddigynnwr,
Wrth fîn y pwll diwaelod dwll,
Drws uffern trigle'r twyllwr.
3. Ar ffo o'u gwlâd a thŷ eu Tád,
yn llawn o bob oferedd;

ioſal 'ynt i' ble mae'n hynt :
Diyſtyr o Drugaredd.
Daeth *Duw* o hyd i'r gollgaethglud,
a'r *Ddeddf* y nefol ddefod,
dwybod ffraeth fel diŵyr ſaeth
a helaeth *Râs* y Drindod :
Y Prynŵr crŷf a ddaeth yn hŷſ,
gan neidio dros y bryniau,
galw'n groch ; *Gâd yna'r môch*
a'r diſym diles gibau.
Dychwel ar frys i'th Tadol lŷs,
Cei yno fara ddigon,
gan dy Dâd faddeuant rhâd :
oh dychwel Fâb afradlon
Cei groeſaw gwŷch Paſcedig ŷch,
a gloiw wîn puredig :
Fawnder Chriſt o'r nefol gîſt,
Cei yno wledd arbennig.
Lle llawen llon yw bod ger bron
Tâd, a chael ei gymmod,
l yn dy ran (bechadur gwann)
Holl gyfoeth y Cyfammod.
Cael Swpper rhâd o rodd ein Tâd,
chuſol laig ! ein Jeſu :
l traethu hedd â Siriol wedd,
'r yſpryd glân i'n maethu.
Ti'r crŷf, ti'r gwann cei hyn i'th rann
s cywir 'wyt gredadyn ;
fwy, cei well, cei fyn'd ymmhell
wch pob rhyw ddrwg a gelyn.

Hymn. III.

1. BU hiraeth mawr am dorriad wawr,
amlygiad Chriſt Jehoſah ;
Fal dymma'r dydd geill pawb trwy ffydd
gael gweled y *Meſſiah*.
2. Prophwydi'r Jôn oedd gynt yn Sôn
am *Angel y cyſammod*,
Mewn pryd wrth raid ein ffyddlon blaid
meddyliodd am ei ammod.
3. Blaguryn hârdd o'r nefol Ardd
o Freniniol happus Heppil,
Gwyddom ei fôd yn haeddu'r glôd
Ragorol drwy'r Efengyl.
4. Llanwodd ein Tîr âg Addyſc wîr,
a'n calon â llawenydd ;
Achubwr Bŷd yw têg ei Brŷd.
yr oen ar Zion fynydd.
5. Bu fyw yn dlawd mewn dynol gnawd
goddefodd gyſtud beunydd
Bu farw dro, rhoed pawb tan go'
i'n Chriſt fyw mawl tragywydd.
6. Rhydd ymborth in' didrai di-brin,
cawn fwytta heb ei ddannod .
Cyfeillion gwiw yw'r ffyddlon ryw,
a phlant i'r nefol Drindod.
7. Mae fyched ffydd fel Breſiad Hydd
am ddyfroedd yr Afonydd,
Mae cariad llon yn y ddwyfron
fel gwreichion tân aflonydd:

Mae'r graſau rhain megis ar ddrain
tra byddo Chriſt o'u golwg,
ddanwch da i'r galon gla',
Cael gweled Chriſt yn amlwg.
Bu oſn, bu braw yn cadw draw
fy Enaid ennyd fechan,
nag profi blâs Danteithion brâs
i nerthu nerthoedd egwan.
. Nis mynnaf nâg na'r plyſcyn gwâg
i'm Maeth; na Moddion methiant
haid imi gael Chriſt yn ddifiael,
a'r Nefol Lys i'm meddiant.
Fy Nghriſt rhaid im' wrth Rás wrth Rym
wrth rinwedd d' yſpryd glân:
d hyn imi; Rho'? inneu iti
Fy Hûn, Cei glôd, cei gân.

Hymn IV.

AMgylcha llu dy orſedd fry
(o Dduw) o berffaith Saint,
dgana rhain drwy gyſſon Sain
dy glod; dy glod ei faint!
Clywch nefol gân geneuau glân
eb paid na rhaid wrth orphwys,
ghofiant boen; trwy waed yr Oen
ofiaſant i Faradwys.
Eiddigedd Zêl, a chwant ddi-gêl
ydd yn gorchfygu'n calon,

Gan flyſio bod ymmhen y Rhôd
lle çawn Lawenydd ddigon.
4. Er bod ein taith trwy ddryſni maith
mae'n gobaith yn ddilyſſiant
Nas gedi Chriſt mo'i Blant yn driſt
heb wobrau ffydd a ffynniant.
5. Trwy'r wledd ddibrin (y bara'r gwin)
yn Swpper Chriſt ein Harglwydd,
O nerth i nerth cyrhaeddwn ſerth
a phrydſerth Zion fynydd.
6. O ciliwch draw cymylau, glaw,
cyſcodau, moddion methiant:
F'enaid ond gwych gweled trwyddrych
F'Anwylyd mewn gogoniant
7. Fy Enaid rhed á'th freichiau'r lêd,
nac arbed, na ſydd lonydd;
Os Ceſaiſt flâs ar Griſt, a'i Râs,
cei lawnder o lawenydd.

Hymn V.

HAwddgara un trwy dduwiol lûn
yw'r Eglwys gwraig yr Jeſu,
Aelodau hon ſy' lân ſy' lonn
ynt hardd 'ynt yn rhagori.
2. Trwſſiadus jawn y wraigdda cawn
o mewn ac o'r tu allan,
Wrth gywir Ddrych mae'i gwiſciad gwych
i gyd o aur ac arian.
3. Ei throcdiad ſydd wrth Reol ffydd,
ei ffordd mewn union lwybrau,

Ni thry yn ôl ſel gwybiad ffôl,
brenhin ol yw ei chamrau :
. Ymmlaen yr eiff hyd oni Cheiff
oddiwes Chriſt a'i ddala .
A'r galon bûr trwy lu tros fûr,
Uffernol rym nis rhwyſtra.
. Yn llawn ei Bron o gariad llon
ei Chriſt ei phriod ffyddlon
)wg yn ddinam i Dŷ ei Mam
gwna iddo groeſaw calon.
. Bydd yno wledd mewn perffaith wedd
bydd gwîn a'r Bara goreu
)ydd Swpper brâs yngwydd eu câs
bydd Hedd tros oes trwy Angeu.
. Rhydd Chriſt iw wraig yſprydol Saig
ei gorph a'i waed ei hunan,
)ewiſol wledd i'r Sawl a fedd
y ddwyfol Dduwiol Anian.
. Nis gommedd Chriſt i'r galon driſt
gael cyfran o'r llawenydd,
Rhyw faint bob dŷdd i nerthu ffydd,
a'r llawnder yn dragywydd.
. Cei rwyn, cei ſêl, cei ſiccrwydd, gwel
yn Sacrament ei Swpper,
ei 'r yſpryd rhâd, cei gariad Tâd,
cei Griſt it' yn Gyfiawnder.
o. Cais hyn ei gyd trwy lawnder brŷd
Cais le, cais lenwi'r galon,
ais ſynych flâs ar ffrwythau gras,
ti gei y ddilyth goron.

Hymn VI.

1. BEth ydwyfi na thŷ fy nhâd
i gael fath geidwad hynod
Ag ydyw Chriſt? anhaeddol Rôdd
o wir-fodd Duw er cymmod?
2. Nid oedd annogaeth blaen nac ôl
ond ei Dragwyddol gariad
I achub Dyn o'i gyflwr Caeth,
mor odiaerh oedd ei fwriad!
3. Danfonodd Duw'r gythreulig lu
i'r Pwll du caeth heb waelod,
A than Dragwyddol gyfiawn Farn
llaw gadarn, maent mewn trallod.
4. Ni chawſant unwaith gynnyg Hedd,
ond am eu Camwedd creulon
Eu gwthio draw, heb obaith byth.
un Chwyth o'r erchyll *Eigion*.
5. Ond er inni bentyrru drwg
yn amlwg ac yn ddirgel,
Danfonodd Duw o'i nefol lŷs
ar frys *Gyhoeddiad* uchel:
6. Cae *Hâd y wraig yſſigo Siol*
y Sarph wenwynol dorchog,
A thorri dannedd llymion hon
a'i Chreulon golyn fforchog.
7. Gwnaeth Chriſt yn nerthol hyn i gyd
â'i waed, mewn ennyd fechan,

Fuddugoliaeth odiaeth hon,
Ceiff pob rhyw gyfion gyfran.
I'r holl *ffyddloniaid* gwnaethpwyd *gwledd*
ar Fedd y gelyn garfa;
lwyodd Chriſt ei fwrdd yn llawn
'r *Cyfiawn* gael eu gwala,
Deuwch, deuwch Gyfeillion oll ar frys
ac yn ddi-eſcus cerddwch,
y ttewch o'r *Manna*; ac o'r *Gwin*
yn ddiwarafun yfwch.
Eiſteddaf yn eich plith yn rhwydd,
Eich Arglwydd 'wyf a'ch Brenin;
thra bo'ch gyda'm fi, (heb fraw)
Cewch groeſaw hael a dibrin.
Yn llawnder y llawenydd hwn
y Seliwn y cyfammod,
Duw a fydd yn Ddduw i chwi,
A chwi yn Blant i'r Drindod.
Wrth Fwrdd y *Sacrament* bydd hyn
i'ch derbyn ac i'ch dilyn,
c wedi darfod breuol Oes
Cewch Einioes byth heb derfyn.

Hymn yngh ylch y Sabbath. I.

DIddadl ydyw tod pob Dydd
yn eiddo'r Arglwydd uchod,
id oes na Dydd nac Awr heb nôd
a'i priod waith yn barod.
O'r *Saith* rhoes Duw *Chwe* 'dydd i Ddyn
i ddilyn ei negeſau,

Nid yw ond peth rheſymol jawn
Bod un yn gyflawn wyliau.
3. Neulltuodd hwn trwy *Sanctaid nôd*
i fod yn eiddo 'i hunan,
I gael *Addoliad* puraidd dwys
mewn Eglwys Tai, a Thrigfan.
4. Nefolion lu, Angylion, Saint,
Eu braint ydyw Clodfori
Y Tad a'r Mab a'r yſpryd glan
Mawl ydyw Can y rheini.
5. Yn ddiflin y clodfora rhain
(a nefol Sain y Drindod :
A'u Sabbath hwynt ſydd yn parhau
o'i ddechrau byth heb ddarfod.
6 Oh ! ymarferwn ninnau'n rhwydd
glodfori 'r Arglwydd Jeſu,
Fel y cyd-ganom yn ei lŷs
Trwy hwylus hir arferu
7. Hyfrydol ydyw gwaith y Dydd
a roes yr Arglwydd inni,
I gofio am ei gariad rhad
a threfniad ei Doſturi.
8. Y *Teſtyn* penna' ydyw Chriſt
hwn yn ddiathrift cofiwn :
A'i Brynedigol raſol waith
a chalon berffaith molwn.
9. O'r Nêf i'r Ddaiar rhoddes dro
gan wiſco dynol Natur,
Y Brenin *Jeſu* aeth yn *wâs*
tan gas, tan glwyf, tan ddolur :
10. Ac wedi gorphen ei holl waith
a'i dairh ar y ddaiaren,
Terfynodd oes trwy oddef loes

tôſt Angeu'r Groes rhy ſilen
. A thrwy Goncwerio ei holl gâs
o *wâs* ſe aeth yn Frenin ;
ſcynnodd at Ddeheulaw'r Tâd
uwchlaw holl Frâd y gelyn.
. Ac yn y Nefoedd glairwen bur,
Maen gwneuthur gorchwyl hynod,
n Dadleu tros Droſeddwŷr gwael,
ar gael o honynt Gymmod.
. Rho' le iw waith a'i gariad rhâd
yn oeſtad yn dy galon :
wnaeth lawer mwy, oi ſodd ei hun,
er Dyn nac er Angylion.
. Nid rhaid oedd i'r Angylion pûr
(mewn natur a gweithredoedd)
rth Brynwr nac Eiriolŵr Hedd
(tros gamwedd) yn y nefoedd,
Y rhan gwympedig o'r rhyw hon
y'n eigion poenau tanllydd,
hyn trwy dragwyddoldeb maith
eb Obaith byth am Rŷdyd.
Ond Dyn, Mâb Dyn, Plant Adda ffol
Di-ras, di-rôl, di-rinwedd,
dd Gwrthddrych mawr hyfrydwch Nêf
r rhain mae *Lléf Trugaredd.*
I gofio hyn i gyd rhoes Duw
Sabbath, i fyw'n Sanctaidd,
ciſio Duw a'i ffafor clau
hoes Ordinhadau puraidd.

18. I bôb gwir Griſtion hwn yw'r Dydd
a roes ei Arglwydd iddo,
I geiſio *grâs* i roddi *mawl*
Sancteiddiawl heb eſc'luſo.
19. Dydd yw i ddringo draw i'r Nêf
i glywed llêf Angylion;
Dydd i glodfori yn ddibôen
yr *Oen* â chywir galon.
20. Dydd gwledda ar y Manna hael,
Dydd da i gael ein porthi;
Dydd Pardwn a Dydd puro yw:
dydd Duw, dydd mawr, dydd Moli.
21. Dydd chwilio y Cyſammod Grâs,
a dydd priodas calon
â Chriſt, y priod ffyddlon da:
a dydd llawenna'r Chriſtion.
22. Dydd o ymddiddan tirion têg
ar oſteg gydâ'r Jeſu,
Dydd i gyd-rodio gydâ Duw;
dydd ydyw iw ryfeddu.
23. Dydd o ddiſyrrwch da yw'r dydd,
dydd rhydd i bob daioni;
Dydd i groeſhoelio cnawdol chwant:
dydd ffynniant gras; dydd Gweddi
24. Dydd am y Nêf a'r Bywyd byth,
dydd Bendith; dydd dewiſol:
Dydd byrr; am hyn mae hiraeth ffydd
am Sabbath-ddydd tragwyddol.

Hymn II.

DAnfonwyd Chriſt gan Dduw tin Tâd,
i fod yn Geidwad inni ;
oes Duw ei Fab (rhoes hyn ar lêd)
n gwared o'n trueni.
Daeth Angel ac Angylion lu
draethu'r nefol newydd,
w fugeiliaid effro triſt ;
e *Anwyd Chriſt yr Arglwydd.*
Y rhain panglywſant nefol Sain
r Blygain wawriog euraid
Awyr yn datſeinio'r gân
n fuan, i'r Bugeiliaid.
Pan ddarfu i'r Angylaiddlu
erfynu ei cerddoriaeth,
nynd i'r Nêf ar ôl diſeth
ŷch Bregeth jechydwriaeth.
Daeth ar yr holl Fugeiliaid chwant
ael gweled Sanct yr Jeſu ;
ev mwyn Gadarnhâd iw ffydd
n ebrwydd aent i fynu,
Ddinas Bethlehem, ar dro
yrando ac i weled ;
Griſt i gael gwybodaeth mwy
b oedi'n hwy mo'i cerdded :
Pan ddaethant gwelſant Jeſu glân
n Faban yn y Preſeb :

Ac iw diſgwiliad gwreſog jawn
pob peth yn llawn gyſatteb.
8. O Rhyſedd, Rhyſedd oedd y drych
y Cawſant edrych arno,
A thrwy lawenydd rhoeſant ſawl
i'r Duw tragwyddol yno.
9. Ac wrth ddychwelyd at eu praidd,
tros funyd braidd diſtawent,
I bawb a welent, fel y bu
tan hy' ſynegu cerddent.
10. Y newydd da ar led yr aeth
yn helaeth; ffôl oedd celu
Cyſodi'r Haul, a geni'n Siwr
y Gŵr a elwyd *Jeſu*.
11. O Bethlehem hyd attom ni
y daeth Goleuni rhyfedd,
(Trwy'r yſcrythyrau goreu iw trin)
am Frenin y Tangnefedd.
12. Y Brenin hwn i'n *Hedd* a wnaeth
pan oedd yn gaeth ein cyſlwr,
Goddefodd o gyſtuddiau bwys
i ſod yn gymwys Brynwr.
13. Fe lwyddodd yn ei waith o hyd,
ér bod yn ddrud y gorchwyl,
Ni ruſodd roddi ar y groes
yn offrwm einioes anwyl.
14. Derbyniodd Duw y Tâd ei Rôdd,
a thyſtiolaethodd hynny;
Hwn yw fy anwyl Fâb fy hun,
i'r hwn 'rwy'n ymſodloni.

5. Eſcynnodd ar Ddeheulaw'r Tâd,
Mae'n waſtad yn eiriol ;
c Enwau pawb mewn Rhôl, a'u Nôd,
rhag bod yr ûn yn colli.
6. Pa glod, pa Fawl, pa ddiuwiol barch
pa gyfarch, pa Anrhydedd!
' deilwng Dreth i Grift ein Brawd
am ei ddi-dlawd Drugaredd!
7. Datſeinia holl Breſwylwŷr nêf
â'u hoſlef bur yſprydol,
goniant, Mawl, a chlod ddiboen
Ein Chriſt yr Oen tragwyddol.
8. Nid llai yr Achos na'r ddyled
i dalu'r Deirnged iddo,
an Bererinion ar eu Taith,
mewn gobaith o gyd-tario.
9. Molianwn Ddiuw am dreſnu dŷdd
o'r fath lawenydd inni ;
odforwn Grift ein Harglwydd Nêr.
am lawnder ei ddaioni.
Trwy ffydd, a gobaith, Nefol waith
a pherffaith ffordd Sanctaiddrwydd,
Moli Duw, fel hyn gwych fydd
cyd-treulio Dydd yr Arglwydd.
Myfi, Myfinneu a'm holl Dŷ,
y Nefoedd fry a Siglwn
ain ein maw ; os mawl a'i gwna,
ni phalla mawl. Cyd-ganwn.

Am Fedydd. Hymn I.

1 GWnaeth Duw ein Tâd Gyfammod rhâg Adda'n Tâd naturiol,
Rhoes arno rwym, trwy fygwth llym
nas pryfci'r ffrwyth gwaharddol.
2 Rhoes Duw ar Ddŷn ei Dduwiol lûn,
Pan wnaeth âg ef Ammodau,
Nid trofto'i hun y Seliodd Dŷn,
rhoes bawb o'i hâd tan rwymmau
3 Ond byrr fu ocs ei Râs a'i Foes,
trwy gwymp a phechod gwrthyn
Diddymmodd ef Gyfammod Nêf;
o Fâb fe aeth yn Elyn,
4 Trwy gwymp y Tâd mae ei holl hâd
yn aflan a llygredig:
Aeth dynol ryw o Blant i Dduw:
yn blant i 'r Sarph fileinig.
5 Cyhoeddodd Duw (i gadw'n fyw
Rifedi Etholedig)
Cae Hâd y wraig orchfygu'r Ddraig
ac achub y Cwympedig.
6 Ar hyn gwnaeth Duw Gyfammod gwiw
o Hedd; Cyfammod newydd,
Cyfammod Grâs di-wg, di-gâs,
i achub Dŷn o'i afwydd.
7 Cyfryngwr fydd i'n gwneud ni'n rhydd,
Hwn a Feichniodd trofom,
Yr Jefu yw, yr Oen, Mâb Duw
a wnaeth y cwbl erom.

Rhoes Seliau clau i eglurhau,
a chadarnhau'r Cyſammod;
hoes *Fedydd Dwfr* i'n gwneud yn ſiwr
o'i Ragorfreintiau hynod.
Nid Dwfr ar groen ond gwnaed yr oen
a wir lanhâ yr Enaid,
rwy hwn y bydd y ffordd yn rhydd
at Dduw i'r Nefoedd gannaid.
. Duw golch gwna'n jâch dy Blantos bach
â gwaed dy Fâb, yr Jeſu.
'r ffyddlon Hâd am eu glanhâd
fydd byth yn dy foliannu.

Hymn. II.

NID cyſiawn yw y Ddynol ryw
na glân mewn pen na thraed,
ſymmud ſwm euogrwydd trwm
tywalltodd Chriſt ei waed.
Mae hwn fel ffrŵd i olchi rhŵd
y pechod câs gwenwynol,
n mewn ni thrîg na bôn na brîg
i'r chwerw Bren uffernol.
Naturiol glwy' nid erys mwy,
ni ffrwytha yn weithredol,
wywedig fydd; am hyn trwy ffydd
golyga'r gwaed Rhinweddol.
Nid rhinwedd Dwfr na dwylaw'r gŵr
trwy ſwydd ſydd yn Bedyddio,
a'r geiriau da a ylch y Pla
dy Enaid bach ſy'n clwyfo.

5. Odd' draw o bell, daw rhinwedd gwell
o'r Nefoedd gyflegredig;
O dretniad rhâd y nefol Dâd;
Gwaed Jeſu Griſt yn unig.

6. Drwy ddirfawr boen a gwaed yr oen,
y golchir y Pechadur;
Drwy Ddwfr a Thân, rhinweddau glân
yr yſpryd i'n newidir.

7. Sancteiddiol Râs a'th wna yn wâ
i Dduw, i'r Drindod nefol:
Ac wedi'r daith trwy'r Anial maith,
cei orphwys yn dragwyddol.

8. Ymmyſc y Saint digymmar fraint,
y bydd dy drigfan ddwydd;
Hêb boen, heb chwys, mewn nefol lŷs
ei ganu Mawl Tragywydd.

T E R F Y N.

Rheolau Cymdeithi af Crefyddol.

Heb. X. XXII. XXIII.

Neſawn â thalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi lânhau ein calonnau oddiwrth gydwybod ddrwg, a golchi n corph â dwfr glân.

Daliwn gyffes ein gobaith yn ddiſigl, (canys ffyddlon yw'r wn a addawodd:)

YN gymmaint ac mae unig ddiben y gymdeithsas yma ydyw, derchafu gwir ancteiddrwydd mewn Calon a buchedd mae yn gwbl angenrheidiol i'r ſawl a ddeunt y mewn yddi, yn ddifrifol ymroi trwy s.

Duw, i ymoſſod eu hunain at bob moddion rthnaſol y gwplhau y diweddion daionus nny: Gan hyderu ar allu Duw, a chyrwyddyd yr yſpryd glân, trwy ein Harglwd Jeſu Griſt, in gyffroi, derchafu, a erffeiddio pob daioni ynom.

Tu ac at fod o honynt o un galon, ac o un ddwl yn y bwriad hyn, pob aelod o'r gymithias a addef, ac a ddengys, ei fod o Eglys Loegr, ac a gynniweir yn fynych at y vaſanaeth.

Cyffredin, ac ymarferion cyhoeddus eraill yr unrhyw. Ac hefyd bod yn ofalus y ddangos dyledus gariad Criſtnogeidd, dynerwch a gweddeidd-dra tu ac at bawb ac ſydd o ymarweiddiad da ymhlith y ſawl ſydd o wahanol farn.

3

Bod aelodau y gymdeithias yma ymgyfarfod un prydnhawn yn yr wythnós mewn cyfleus, tu ac at anog eu gylydd y Sancteiddrwydd bucheddol, trwy gyd ymddiddan arfath deſtynau, ac a fo'n tueddu at hynny gan ddala ſylw ar y yſcrythurau ſancteidd megis eu rheol; a gweddio ar Dduw am ei râs ai ſendith.

Ac fe aller derbyn i'r gyfeillach yma neb rhywun difrifol, ad nabyddus y ùn or gymdeithias ar ei ddeiſyfiad.

4

Bod iddynt ochelyd yn y cyfryw gyfarfod ydd bob ymddadleuon ynghylch pyngciau ymrafaelus, a phob ymddiddanion afreidiol ynghylch achoſion Tymorol: a bod holl oddedd eu hymadrodd y ogoneddu Duw, ac adeiliadu y naill y llall mewn cariad.

Bod yn gadel i ysduriaeth pob ûn gyfranbob Cyfarfod wythnoſol, yr hyn a farno y

ddas tuac at yſtôr gyhoeddus, gogyfer ac choſion duwiol a chariadus; yn enwedig oſod plant tlodion mewn yſgol: ar Arian a aſgler fel hyn a gadwir gan y ddau oruchwylwyr y Society, y rhai a ddewiſer un waith ob blwyddyn, neu'n fynychach os gweler od yr dda, ar ddymyniad y rhan fwyaf, i'r liweddion a ragddywedpwyd. Ar goruwchwylwyr a enwyd, a gadwant gyfrif cywir o'r yn a gaſgler fel hyn ac a waſgarer, neu a oddir allan, i'w ddarllen gan un rhyw aelod o'r gymdeithias ar ei ddymyniad.

6

Y gall un rhyw aelod berthnaſol orchymyn 'r goruchwilwyr in gwrthrych o gariad, y hai (trwy gyſyniad y lleill) a gyfranant allan 'r yſtor gyfredin fel y bo'r achos yn gofyn.

Ac mewn achos o angenrheidrwydd anarerol, dymyner ar bob un yn neullduol gyfranu fel y gwelo efe yn gymwys.

7

Pob un ac apſenno ei hun bedwar Cyfarod ôl yn ôl (heb roddi rheſwm bodlongar ir goruchwiliwyr) a edrycher arno fel un digarad ir gymdeithias.

8

Nad oes derbyn neb i'r gymdeithias yma, eb roddi rhybydd addas o hynny i'r goruch-

wyliwyr, y rhai a wnant hynny yn adnaby-
ddus i'r holl, gymdeithias. Ac yn ól dyled-
us a manol ymofyniad am eu bwriadeu cre-
fyddol, a threfn eu bywyd, yna y gall y go
ruchwyliwyr e'u derbyn os bydd y rha
fwyaf o'r gymdeithias yn bodloni, ag nid y
amgen. A thrwy r un rhyw gydſyniad
gallant gau allan un aelod a brofer yn euog
un cam ymddygiad, yn ól dyledus rybydd
oni rydd efe dyſtiolaeth ddigonol ei edifeir-
wch ai wellhâd ger bron yr holl gymdeithias

9

Yr ydys yn gorchymyn y bob un o'r gym-
deithias hon, ysduried y peryglus ſaglau o ch-
waryddiaeth; ar gwradwydd amlwg o fo
yn gyfrannog yn y Chwareuon hynny ac ſy'
arferedig mewn Tafarn-dai; ar ffordd ddio
gelaf, a mwya camoladwy yw eu gochely
yn hollol; a gwrthod pob afreidiol ymgyn
hullfa i'r fath deiau, a thafarnau, achilio y
gwbl oddiwrth chwarau dai anllad.

10

Yn gymmaint a bod y dyledſwyddau a ga
lyn yn or mod wedi e'u heſgeuluſo, er gw
radwydd, a dirmig i'r grefydd griſtnogol,
y maent yn bwriada trwy râs Duw ei wneu
thur yn ymdrech difriſol iddynt,

1. Y fod yn gyſiawn, neu'n gywir, ac y
unio

ion ymhob peth wnelont ie hyd at fod yn
mplau o ddichlindra. 1 *Theſs.* 4. 6.

2. Y weddio amryw weithiau bob dydd:
n oſſod ein goglud gwaſdadol ar Dduw am
ndithion yſbridol, a Thymorol. 1 *Theſſ.* 5. 17

3. Yfod yn gyfranogion o Swpper yr Ar-
wydd, or lleiaf unwaith bob mîs; os na rag-
una rhwyſtr rheſymol hwynt. 1 *Cor.* 11.
6. *Luc.* 22, 19.

4. Y ymarfer or Addfwynder, ar goſtyn-
eiddrwydd dyfal, *Math.* 11, 29.

5. I wilio na byddo yn i farnu eraill. *Math.*
1.

6. Y ymarfer ein hunain ymhob lle a me-
dyliau ſancteidd. *Pſal.* 139, 23.

7. Y fod yn gynnorthwiol, y naill i'r llall.
Cor. 12, 25.

8. Y ddangos tynerwch, amynedd a thoſ-
ri tuac at bawb. *Tit.* 3, 2.

9. Y fanol graffu arnynt e'u hunain pan
darllenont y Bibl Sancteidd; neu Lyfrau da
aill, a phan wrandawond Bregethau. 1 *Cor.*
. 11.

10. Y ochelyd pob rhâg weledig achlyſ-
o ddrwg: megis cyfeillach ddrygionus,
ofedigaethau ydnabyddus. 1 *Theſſ.* 5, 22.

11. Y feddwl yn fynych am wehanol gy-

fyrau y cadwedig ar damnedig a thragwyd
oldeb anghyfnewidiol y ba un yr ydym
pryſuro. *Luc*, 16. 25.

12. Y holi eu hunain bob nos, pa d
neu ddrwg a wnaethant y dydd a aeth heib
2 *Cor*. 13, 5.

13. Y gadw ympryd neullduol, unwa
bob mîs (yn enwedig, yn agos i'w neſhâd
fwrdd yr Arglwydd) os ydynt at eu Rhe
aeth eu hunain, neu y ymprydio oddiwr
rai prydiau pan allont yn gyfleus. *Math*.
16. *Luc*. 5, 35.

14. Y farwhâu y cnawd ynghyd a'i wy
au a chwanteu *Gal*. 5. 19, 24.

15. Y gymhyddu mewn pob grâs, a
folrwydd. 1 *Pet*. 3, 8.

16. Y ochelyd balchder yſbridol, ac eff
thiau, megys ymryſon, llid gwrthniſigr
ydd, ac anioddefgarwch, y ddywedyd in h
byn ar cyffelyb.

17. Y weddio dros yr holl Society yn
gweddiau dirgel. *Jag*, 5. 16.

18. Y ddarllen llyfrau da yn fynych er
hadeiliadaeth ; ond yn enwedig y Bibl San
eidd. *Jon*. 5, 39. Yntho yn neullduol
Math. 5. 6. 7. ben *Luc*. 15, 16, Pen R
12. 13. Pen. *Eph*, 5. 6. Pen. 1. *Theſſ*.

Dat

at. 12. 3. ar 22. Ac hefyd or hên Deſ-ment, *Sef.* 26. *Deut.* 28. *Eſa.* 53. *Ezek.* 36 19. Y feddwl yn fynych ie yn wasdadol n rwymedigaeth y broffes neullduol hon, ac rodio mor fanol a dieſgeulus, fel na thram-wydder na digaloni neb oddiwrthi, trwy'r yn a welont ynthynt hwy; Ac na rodder m Achlyſur i neb ddywedyd yn wradwy-lus am dani.

20. Y ochelyd pob math ar ymchwydd, drwgnawſedd, a bod o ymddygiad gwedd-dd, ac ennillgar tuac at Bawb.

II.

Ar fod iddynt fynnych ysduried gydag ar-yd, ac ofn; digofaint, yr uchder athriſt i'r yn y mae pechodau llawer yn y deyrnas n wedi derchafu ar anghydfyddiaethau aedlyd mewn gwlad ac Eglwys. *Mal.* 3. . A bod pob aelod yn barod y wneuthur hyn wedi ymgynghori a'i gilydd a farner dyn add s, tuac at goſpi halogrwydd cy-eddus yn ôl cyfreithiau goſodedig y deyrn-hon. *Barn.* 5. 15. *Deut.* 13. 8. *Levit.* . 11. I ymarfer trwy orchymyn yſbyſol Frenhines, ar diweddar y wneuthur yr hyn yddo cymwys iddynt yn eu lleoedd tuac Jachàu ein ymraniadau.

Bob

12

Bod y bob aelod anog i cateceiſio pobl ifain
ac anwybodus yn e'u hamryw deuluoedd
ôl e'u galwad ai gallu ; a chadw y fynu b
math o ddyled : ſwyddau teuluaidd.

13

Bod gan y rhan fwya or gymdeithias bw
y wneuthur rheol newydd, y rwymo y cyf
pan fyddo angenrhaid yn gofyn ; o bydd
o wenidogion dyſgedig a Duwiol o Eglw
Loegr yn bodloni iddi ac a enwer, neu a dd
wiſer gan yr holl gymdeithias.

14

I'r rheolau hyn gael e'u darllen bed
gwaith yn y flwyddyn droſtynt gan un
goruchwylwyr gyda'r fath bwyll, ac y ca
pob aelod, amſer y holi e'u hunain wrthy
neu ddywedyd e'u meddwl mewn un pe
perthnaſol iddynt.

15

Bod y bob aelod o'r gymdeithias, yn
dwys yſduriaeth ac addas brawf ddangos
fodlonrwydd i'r Rheolau hyn ai hymroa
geiſio byw y fynu attynt i'r hyn beth cadw
gydag ef goppi or Rheolau hyn,

Diwedd.

Llwybur.

Hyffordd ir *CYMRU*

Ti a Channan nefol trwy ymarferud ar moddion trwy ras a ffydd Ynghrift

Y mae Llyfur wedi ei oſſod allan yn 3 Rhan

Yn Gyntaf, Ychydig o Hymneu ar amyw achoſion gan rai o wenidogion Eglwys Loeger ag eraill.

Ag yn Ail, Agoriad eglur ar y Ganiadau *olomon* o waith *y* parchedig Mr. *Tho. Baddy* wenidog 'r Efengyl yn Sir *Ddinbach.*

Ag yn Drydydd, y mae ychydig rheoleu'r meynhyllfa wythnoſol fy mewn rai maneu nghymru ac ac yn amal iawn y Lloeger neydd ac a mewn amryw wledydd o'n amylch er mwyn cynnyddu mewn gras o gwyodaeth o Criſt ac o honynt eu hynain.

---

rgraphwyd yn y *Mwythig* gan *R. Lathrop*, tros *Evan ab Rhys* MDCCXL.

HYMN ar y 6. or *Ephe.*

POb Cyfriw Dyn y ſydd ai Daith
Yn berffaith at yr union
Fa rhaed yn ddyfal nos, a Dydd
Nes Del y fynydd Sion.

2
Rhaid iddo wiſgo am ei Draed
O baratoad Caled
Eſcidie o Dangnefydd pur
Maer ffordd yn hûr iw cherdded.

3
A gwiſged holl arfogaeth Duw
Fel y bo buw ei Enaid
A Chleddeur yſbryd wrth ei glŷn
I ladd pob gelŷn Dirnaid.

4
Rhaid yw gwiſgo'r lwyne'n glyd
A hyſryd wirioueddau
Dwy fronneg o gyfiawnder pur
A helm mor glyr a hithau.

5
Rhaid Cael hefyd Darian gru
A elwyd ffydd Diffiant
A thyna'r araf orau y grann
I Diffod tann y teurant.

6
Maen rh... Cael plate o bobtur breſt
O gariad ..eſt gwaſtadlon

) waith bod Satan mor Exact
i lefel att y galon.

7

Maen Rhaid Cael hefyd allwedd Duw
elwyd pob rhuw weddi
c iwſio hon bob munêd awr
Vaeth achos mawr ſydd wrthi

8

Gogoniant Moliant parcha bru
ſo ur tri'n waſtadol
Ir Tad ur Mab ar Yſpryd glan
Heb Ddim gwahaen yn Rheol.

HYMN ar yr 2. or Can.

Tydi iw'r Rhoſyn ſaron ſydd
Mae Mron yn brydd er's enyd
Yr wyſi yn glaf mi glywa glwyf
) gariad fy Arglwyddaur glyd

2.

O Rhoſun ſaron wych a hardd
Ni all Bardd Rhoi allan Dawn
Dy fawr hawddgarwch Degwch
Pwyall yn jawn ei Ddattcan.

3

Dy aroglau di y ſydd yn bûr
Ath law yn ŋglûr hailwen
Nid oes Cyffelyb itti yn bod
yn rhodio rhod ffurffafen.

4

Mae ynot rhinwedd rhyfedd yw
Clod In Dduw amdano
Su'n abal gwella Clwyfer fall
Gnwa ni yn gall iw i geiſio

5

Fei ac y gwelwch Degwch dawn
Yr hwn ſydd iniawn olau
Efe i olyga pob gwûr Sant
Rhagora ar gant o gantau

HYMN ar y 12 or *Dat.*

Bu yn y Nef rhyfeddod Maith
Mawr ydyw gwaith golygiad
Gwraig mewn hwyl gwiſgor haul
Athenin Drail y Lleiad

2

Ac ar ei phen yr oedd yn Ddruch
Rhyw goron wych rhagorol
O Deiddeg ſeren ſiriol ſydd
Dwys eglyr a diſcleiriol 3 ſulſr

Yn wir y wraig iw Egl wys Criſt
Ai Didriſt gyfiawn had
a thyma haul y ſydd am hon
A Daiar Don ywr lleiad.

4

Ar goron wych oeddar ei phen
O deiddeg ſeren ſicrol

Yr Apoſtolaeth mawr i braint
A rhowd ir Saint yn rheol

5
Pam oedd rhyfeddod yn y Nef
Waith iddo ef arfaethi
Ac oddi yno y mae ei gras
A chymmorth addas iddi.

6
Ar ffordd ini i ffeindio'n bod
Dan wiſgoe'd yr haildes
Wrth ole gwres rhinwedd Cu
Mor fwynedd Sy'n ei fynwes

HYMN *Am fawredd Duw.*

DUw Tragwyddoldeb wyt cyn neb
I Dragwyddoldeb byddi
Nid oedd neb i rhoi itti fod
Duw hyuod wyt am a hynny

2
Tydi yw'r ynig ſulwedd buw
Dydi yw Duw y Duwiau
Tydi yw'r anghufnewyd ûn
Heb na llûn na lliwiau

3
Ni welodd neb Tydi Duwr Tad
Ni welad ac ni welir
Ond ymherſon Criſt Duw jor
Yr wytin fo'r Diſeſyr

4

Difeſir wyt heb gorph na rhan
Ond yſbryd purlan perffaith
Pwy a genai all rhoi ar gàn
Rhyfedd anian unwaith

5

Ni all anghelion ond mewnhau
rhoi allan dy fawr allu
Beth all dyn ond tawi a ſôn
Gwaith Digon ywth rhyfeddi

Morgan Jones o Flauneu gwent a gwnaeth

Hymneu yw y ganu un yr wythnoſol ymgynhullfa
ar meſur oedd gan Mr. Whitfield.

O Dewch chwi pawb ſydd yma ynghyd
Y nawr och bron a rhowch eich bryd
Dduw un glud ni ganwn glod
Tra ſo ni'n byw ac yma un bod
Wel dyma odſa hoiwa hynt
Sy raid ei gowndo megys Cynt
Ac ni ddymynen forcu a hwyr
O gariad llawn rhoi 'r glod un llwyr
O gwel ni yma ger dy fron
Dan lwyrheu blin wrth fin y don
Ein nerth ein hun nid yw ond gwan
Oh rho dy law o thyn ni ir lann
Yr yn ni yma nefoldad
Yn ym lrabeuddu yn ein gwaed

Oh tyred Jeſu tyn ni athras
O dan awdurdod bechod gas
Di addeweiſt clyw fy Arglwydd gu
Fod lle ymcynulleu dau neu dri
Os yn dy enw y doent ynghyd
Oh dere i un bro ar hyn o bryd
Di a ddywedaſt clyw fy Arglwydd Criſt
Er maint yw'r trwſt waith bechod triſt
Fr gweitha Satan a phob whelp.
Hyd attat ti down ni am help
Dy nerth dy nawdd o'n mewn ni doed
Tra bo ni yma un byw a bod
a chynorthwya ni yn ein gwaith
Y fwrw 'r traul cyn mynd ir daith
Na ad i anghrediniath ffol
Fel tywyllwch nuwl un dallu 'n ol
Rho ynom nerth dy yſbryd glan
On cyflwr blin tynn ni yn y blaen
A gwna ni 'n froi fod o un fryd
Fy'n ganu Hymneu cyneu ynghyd
Dewn etto i fecian wrth dy ddor
Clyw agor ini 'n Arglwydd jor
Yr Tad i'r Mab ar Yſpryd glan
Or galon glyd bo't glod ar gan
Rho wir opiniwn yn y ben
O eneu a min roi mawl Amen

E. Rees A. U. Cwnaeth

HYMN or 4 *Joan.* 29

DEwch yma bawb att Criſt och bron
a chalon yſtynghedig
Mae yma werthfawr berls yn ffar
Ir newynog ar ſychedig.
Dewch yma holl gwynfannus rhai
Am Dan eich bai Cewch bardwn
Chwi weinied Dewch i moſyn grym
Na phallwch dim Erdelwn.
Dewch yma ell tlodion gwaer
At Criſt ein gwir gaer gore
Ger llaw ir lle ſe ſaif fel tuſt
I lonni eich triſt Eneidie.
Mi a wahoddais bawb or byw
Fy nuw tro yma yw derbyn
Cymmwys ir rhai ſu gyntaf goll
Fod oll yn oll yn gyttyn.
Y ddwad ar frys tuar nefol lys
Trwy'r anial ddyrus lwybreu
Duw 'n dygo Amen ir nefoedd wen
Yn ſiwr i ben ein ſiwrneu.

Mr. *Dauiel Rowla*

3 AU 68

DIWEDD.